# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 1 CHWEFROR 2016 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | MONDAY, 1 FEBRUARY, 2016 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL / INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O. Jones (Is-Gadeirydd /Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R. Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

Derbyn unrhyw ddiweddariad gan y Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd.

3 **COFNODION CYFARFOD 1 RHAGFYR, 2015** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2015.

4 **GOSOD CYLLIDEB 2016/17: REFENIW A CHYFALAF** (Tudalennau 11 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

5 **PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16** (Tudalennau 31 - 54)

Cyflwyno adroddiad terfynol ac argymhellion y Pwyllgor Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas ag Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16.

6 **GWASANAETH IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL** (Tudalennau 55 - 58)

Cyflwyno datganiad sefyllfa ynglyn â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol.

7 **SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY AC EFFEITHLON AR GYFER Y DYFODOL: TRAWSFFURFIO LLYFRGELLOEDD** (Tudalennau 59 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

8 **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD YSGOLION MÔN** (Tudalennau 93 - 110)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

9 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 111 - 114)

Cyflwyno Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor.

10 **DATGANIAD SEFYLLFA : PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI** (Tudalennau 115 - 122)

Cyflwyno er gwybodaeth, ddatganiad sefyllfa ynglyn â'r Panelau Canlyniad Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Lewis Davies, Ann Griffith, Victor Hughes, Raymond Jones, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Trawsnewid<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol (GM)<br>Prif Swyddog Prisio (DE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR)<br>Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd (RE)<br>Cydlynydd Absenoldeb Salwch (AR)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws, y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio Trawsnewid ac Adnoddau Dynol), Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT), Mr Mark Roberts, (AGGCC), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (JHJ), Rheolydd Sgriwtini (BS) |

DRAFT

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Dywedodd yr Is-gadeirydd y cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar 19 Tachwedd 2015 ac yn ystod y cyfarfod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth i gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2016/17 yn ogystal â rhaglen waith y ddau bwyllgor sgriwtini. Cadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro y cyflwynwyd i'r Fforwm Ddatganiad Sefyllfa ar ffrydiau gwaith sgriwtini. Y bwriad oedd darparu gwybodaeth i'r Fforwm am waith a statws y panelau canlyniad sgriwtini yn ogystal â ffrwd waith sy'n esblygu mewn perthynas ag ymgysylltu gyda dinasyddion/y cyhoedd

a hynny ar y cyd â Lleisiau Cymunedol, ond oherwydd prinder amser, roedd y wybodaeth wedi cael ei chylchredeg wedyn.

### 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 TACHWEDD 2015

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir – cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Sgriwtini a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2015.

Yn codi -

Rhoddwyd ystyriaeth i enwebu Aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.

**Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd R. Llewelyn Jones i wasanaethu ar y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion.**

### 4. MONITRO PERFFORMIAD: CHWARTER CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL 2 2015/16

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - Adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn rhoi darlun o sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar ddiwedd Chwarter 2 2015/16.

Materion a godwyd gan y Pwyllgor -

- Rheolaeth Ariannol - cyfeiriwyd at nifer y meysydd a oedd â statws CAG 'Coch'. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 bod y meysydd hynny sy'n sgorio'n coch oherwydd gorwariant ar y gyllideb yn cael eu sylw yn yr adroddiad monitro ar y Gyllideb Refeniw. O ran y gorwariant mwy sylweddol mewn perthynas â chostau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr, eglurodd y Swyddog fod oddeutu £ 500k wedi ei wario ar y cyntaf a bod £200k yn arian grant ac mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yny Gwasanaethau Plant, Penhesgyn ac Adnoddau. Mae'r costau yn Adnoddau'n gysylltiedig â 2 aelod o staff asiantaeth sy'n ymwneud â'r prosiect CIVICA ac mae modd cwrdd â'r costau hyn o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac mae 1 aelod o staff asiantaeth yn cael ei gyflogi gan y Tîm Refeniw sy'n gweithio ar gasglu dyledion, gwaith sydd, wrth ei natur, yn creu incwm.

  Dywedodd y Swyddog bod y gwaith ymgynghorol yn fwy anodd ei ddiffinio ac i dynnu gwahaniaeth rhyngddo a gwasanaeth proffesiynol. Mae llawer ohono yn cael ei ariannu drwy grantiau sy'n golygu bod y costau gwirioneddol yn llai nag oedd yn ymddangos yn wreiddiol. Mae rhai ymgynghorwyr yn llenwi i mewn ar gyfer swyddi staff sy'n golygu bod cyllideb staffio ar gael i dalu am y costau hynny. Er enghraifft, mae rheolaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu drwy gontract gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac er bod y gwaith hwn yn cael ei gategoreiddio fel ymgynghoriaeth, mae mewn gwirionedd yn cyflawni swyddogaeth staffio y mae cyllideb ar ei chyfer.

  Cyfeiriodd y Swyddog at y diffyg yn yr Adain Adnoddau (£73k) mewn perthynas â'r hyn y llwyddwyd i'w gyflawni o ran arbedion a dywedodd fod hyn oherwydd anhawster annisgwyl i gyflawni'r arbedion yn sgil yr ymarfer tendro banc. Dywedodd y Swyddog bod arbedion effeithlonrwydd yn destun sgriwtini gan Banel Canlyniad Sgriwtini penodol a fyddai'n adrodd ar ei waith ym mis Chwefror, 2016.

  Nododd y Pwyllgor yr esboniadau a roddwyd o ran lliniaru'r tanberfformiad yn erbyn targedau DP a gofynnodd am ffigurau'r flwyddyn flaenorol i ddibenion cymharu ac i gynorthwyo'r Pwyllgor i werthuso lefel y cynnydd neu fel arall.

  - Rheoli Perfformiad - Cyfeiriwyd at DP 21 (nifer y tasgau trwsio tai a gwblhawyd ar gyfartaledd fesul gweithiwr pob diwrnod) a DP 23 (y nifer o ddiwrnodau calendr a gymer ar gyfartaledd i osod

DRAFT

unedau llety (heb gynnwys Eiddo Anodd eu Gosod) fel dau allan o bedwar o ddangosyddion yn y Gwasanaeth Tai sydd yn tanberfformio.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai mewn perthynas â DP 21 bod angen adolygu'r data a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigurau. Ar hyn o bryd, nid yw nifer y tasgau a gyflawnir ar eiddo gweigion a gwaith cynnal a chadw'n cael ei gofnodi gan weithwyr oherwydd nid oes rhestr briodol o gyfraddau ar eu cyfer y gellir cofnodi amser cynhyrchiol yn eu herbyn. Bydd rhestr o brisiau'n cael ei hymgorffori yn y systemau casglu data i'r dyfodol. Mewn perthynas â DP 23, mae adolygiad o'r broses Rheoli Eiddo Gwag wedi cael ei wneud ac mae'r argymhellion yn cael eu gweithredu.

Nododd y Pwyllgor yr esboniadau a roddwyd ynghyd â'r camau lliniaru a gynlluniwyd a / neu gamau a gymerwyd gan y gwasanaeth. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor ymhellach ei fod wedi penderfynu mewn cyfarfod blaenorol bod Panel Canlyniad Sgriwtini i archwilio'r gwaith o reoli eiddo gwag yn cael ei sefydlu ac y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn Chwarter 4.

Nododd y Pwyllgor hefyd yr angen i gymryd ymagwedd fwy rhagweithiol o ran monitro a gorfodaeth mewn perthynas â thenantiaid sy'n methu cynnal eu llety. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai fod y gwasanaeth rheoli tai wedi cael ei gryfhau yn ddiweddar a bod swyddog yn delio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol. Dywedodd y Prif Weithredwr y bwriedir ymofyn pwerau ychwanegol i'r Cyngor ddelio gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan denantiaid a bydd cynllun peilot yn cael ei gynnal mewn un ardal. Ni fedrir datrys y mater dros nos ond drwy ymdrin yn gadarn ag achosion unigol, daw'r neges yn glir bod y Cyngor o ddifrif ynghylch mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ei dai.

- Gwasanaeth Cwsmer - gofynnwyd am eglurhad ynghylch sgôp yr ymarfer siopwr cudd ac a oedd yn cynnwys ymweliadau â'r swyddfeydd hefyd. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol bod yr ymarfer siopwr cudd yn cwmpasu ystod o weithgareddau fel y cânt eu disgrifio ym mharagraff 2.5.7 yr adroddiad ysgrifenedig gan gynnwys ymweld â chroestoriad o wasanaethau'r Cyngor i gysylltu wyneb yn wyneb ac i sicrhau bod gwasanaethau'n glynu wrth y Siarter Gofal Cwsmer. Roedd yr adroddiad allbwn sydd, ar y cyfan, yn bositif, wedi cael ei ystyried gan y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth a fydd yn goruchwylio unrhyw gamau y mae angen eu rhoi ar waith.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi'r meysydd y mae'r UDA yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol fel y cânt eu crynhoi dan baragraff 1.3 yr adroddiad.**
- **Nodi'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yn yr adroddiad ac a gyflwynwyd ar lafar yn y cyfarfod.**

**CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 i ddarparu ffigurau 2014/15 ar y Dangosydd Perfformiad ar gyfer Rheolaeth Ariannol fel y gellir cymharu.**

## 5. MONITRO PERFFORMIAD: RHEOLI POBL

Rhoddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a'r Cydlynydd Absenoldeb Salwch gyflwyniad gweledol ar y sefyllfa mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch yn yr Awdurdod.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol -

- Roedd y ffigyrau ar gyfer Chwarter 2 2015/16 yn dangos ychydig o welliant ar y chwarter blaenorol ond nid ydynt cystal â'r rhai ar gyfer y chwarter cyfatebol y llynedd. Rhagwelir y bydd gwelliant yn y chwarter nesaf a gwnaed cynlluniau i ddelio â'r cynnydd a ragwelir yn y ffigurau dros fisoedd y gaeaf.
- Mae canran y cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd o fewn y meincnod 5 niwrnod gwaith (82%) wedi gostwng ychydig o gymharu â Chwarter 1 (86%), ond mae'n debyg i'r chwarter hwn y llynedd.

- Er bod cyfraddau absenoldeb salwch tymor hir wedi bod yn mynd i fyny o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n benodol ar y maes hwn ac ymgynghorwyd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth i geisio sefydlu a oes modd dylanwadu ar rai achosion unigol yn unol â Polisi Rheoli Absenoldeb yr Awdurdod. Y disgwyliad y bydd tystiolaeth o'r gwelliannau hyn yn Chwarteri 3 a 4.
- Mewn perthynas ag absenoldeb salwch tymor byr, mae canran y cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP) a gynhelir gan reolwyr wedi gostwng yn Chwarter 2 (24%) o'i gymharu â Chwarter 1 (33%).
- Bod yr Awdurdod wedi bod yn rhan o adolygiad cenedlaethol o bolisïau absenoldeb salwch awdurdodau lleol a gwelwyd mai'r awdurdod hwn oedd wedi gwella fwyaf o blith yr 20 o awdurdodau a gymerodd ran. Amlygodd yr adolygiad, er bod polisïau ar gyfer rheoli absenoldeb yn debyg ar draws yr awdurdodau lleol, mae rhai awdurdodau yn perfformio'n well nag eraill a'r rhesymau am hynny'n amrywio, gyda'r ddau awdurdod sy'n perfformio orau wedi allanoli'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal sydd, yn draddodiadol, â lefel uchel o absenoldeb oherwydd salwch. Y neges sylfaenol i'w chymryd o'r adolygiad yw y dylai dyfalbarhad yr Awdurdod o ran gwreiddio ei bolisïau a'i arferion rheoli absenoldeb arwain at ganlyniadau yn y man oherwydd nid yw ei ddull yn annhebyg i'r un a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau eraill.

Materion a godwyd gan y Pwyllgor -

- Yr angen i fuddsoddi mewn mesurau a fydd yn cynorthwyo i ddod â staff sydd ar absenoldeb salwch tymor hir oherwydd straen yn ôl i'r gweithle e.e. drwy arferion ymwybyddiaeth ofalgar a fyddai hefyd yn gweithredu fel strategaeth ataliol.
- Yr angen i geisio gwelliannau pellach o ran nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhelir o fewn yr amserlen.
- Yr angen brys i gynyddu nifer y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb a gynhelir o fewn yr amserlenni.
- Yr angen i rannu gwybodaeth am lefelau presenoldeb yn ehangach.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran Rheoli Absenoldeb Salwch yn yr Awdurdod a nodi hefyd bod camau i sicrhau gwelliant yn parhau i fynd rhagddynt.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH**

**6. MONITRO'R GYLLIDEB: CYLLIDEB REFENIW CH2 2015/16**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer ail chwarter 2015/16 a'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn gan gynnwys ffynonellau'r prif amrywiadau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa wedi gwella o gymharu â'r chwarter blaenorol a bod y sefyllfa ariannol a ragwelir yn gyffredinol ar gyfer 2015/16 bellach yn orwariant o £ 980k, sy'n llai na 1% (0.78%) o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2015/16 ac yn welliant o gymharu â'r gorwariant a ragwelwyd o £1.62m (1.3%) yr adroddwyd arno ar ddiwedd Chwarter 1.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa a gofynnodd am eglurhad ar y tanwariant o £395k a ragwelir ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ar ddiwedd y flwyddyn .Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 bod sefyllfa'r Gwasanaeth Cynllunio ychydig yn wahanol i'r blynyddoedd diwethaf oherwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion ar ddatblygiadau mawr lle ceir incwm am yr amser a dreulir ar y prosiectau hynny. Er bod swyddogion, mewn rhai achosion, wedi cael eu symud i ymgymryd â dyletswyddau sy'n ymwneud â'r datblygiadau hynny, nid oes neb wedi cael eu penodi i'r swyddi gwag gan olygu bod incwm nad oedd ar gael o'r blaen yn cwrdd â'r costau hynny. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoddi i'r modd y bydd y Gwasanaeth Cynllunio yn cael ei drin yng nghyllideb y flwyddyn nesaf o ystyried bod y gwaith ar y datblygiadau mawr wedi cyrraedd pwynt arwyddocaol, a bydd angen rhoi sylw dyledus i'r modd y cyfrifir am y gwaith hwn a'r incwm a'r costau cysylltiedig .Nododd y Pwyllgor na fyddai'n dymuno gweld newidiadau yn cael eu gwneud ar draul y Gwasanaeth Gorfodaeth Gynllunio.

DRAFT

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor am arweiniad ynghylch meysydd y dylid parhau i'w hadolygu a bod yn effro i unrhyw newidiadau ynddynt, dywedodd y Swyddog bod y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant yn feysydd lle mae'n anodd rheoli gwariant oherwydd yr elfen anochel o anwadalwch sy'n gysylltiedig â'r rhain fel cyllidebau sy'n seiliedig ar y galw am wasanaeth. Er bod troi at gronfeydd wrth gefn y Cyngor os oes galw'n codi nad oedd modd ei ragweld, dylid nodi y dylid cadw lefel resymol o arian wrth gefn ac na ddylai balansau gael eu defnyddio i bontio'r bwlch yn y gyllideb refeniw.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol -**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol hyd yn hyn**
- **Y diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn, a**
- **Y camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i hyn.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

*(Nodwyd na chymerodd y Cynghorydd H. Eifion Jones, yr Aelod Portffolio Cyllid ran yn y drafodaeth mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)*

**7. MONITRO'R GYLLIDEB: CYLLIDEB GYFALAF CH2 2015/16**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2015/16.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid nad oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn Chwarter 2 yr oedd angen eu hamlygu ac nad oedd unrhyw elfen o'r rhaglen yn peri pryder ar hyn o bryd.

*(Gwnaeth y Cynghorydd Peter Rogers ddatganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas â'r drafodaeth ar y rhaglen mân-ddaliadau).*

Nododd y Pwyllgor y canlynol -

- Mai 13% yn unig yw'r gwariant ar y Prosiect Gweithio'n Gallach - hysbyswyd y Pwyllgor y byddai diweddariad ar Weithio'n Gallach yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Briffio Misol yr Aelodau a gynhelir ar ddydd Iau, 3 Rhagfyr, 2015.
- Bod y gwariant mewn perthynas â Datblygu Economaidd yn 102%. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 y byddai'n gofyn am eglurhad manwl gan y Pennaeth Adfywio Cymunedol ac Economaidd ac yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.
- A oes modd cyfiawnhau parhau i wario arian cyfalaf ar y rhaglen gwella mân-ddaliadau yn yr hinsawdd economaidd bresennol pan mae'r manteision yn gyfyngedig ac a fyddai'n rhesymol yn awr i drethdalwyr Ynys Môn ddisgwyl gweld elw ar y portffolio.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer Chwarter 2 2015/16.**

**8. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD 2014/15**

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys Asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Llyfrgell am 2014/15 a'r materion sy'n codi.

Adroddodd y Pennaeth Dysgu bod y safonau a nodir yn y Pumed Fframwaith Ansawdd o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17 wedi cael eu hymestyn sy'n ei gwneud yn anos cymharu perfformiad gyda'r flwyddyn flaenorol. Mae'r pumed fframwaith yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau a'r manteision y mae'r Gwasanaeth yn eu darparu i drigolion yr Ynys. Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn ffurflen flynyddol Ynys Môn ac mae'n dangos bod y Gwasanaeth yn perfformio'n dda ac wedi cwrdd â 14 o'r 18 hawliau craidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn a 3 yn rhannol. Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn

DRAFT

nodi bod y gwasanaeth yn Ynys Môn yn un sydd ag elfennau perfformiad cryf a gwan ac y gallai unrhyw doriadau ychwanegol i'r gyllideb adael y Gwasanaeth mewn sefyllfa fregus a bod perygl i'r perfformiad ddirywio. Cyfeiriwyd yn benodol at lefelau staffio y bernir eu bod yn is na'r safonau a bennwyd a nodir hynny fel rhywbeth sy'n achosi pryder o ran datblygiad y Gwasanaeth. Dywedodd y Swyddog bod dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y Gwasanaeth tra'n ceisio cynnal safonau yn her barhaus.

Ymhelaethodd y Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell ar y 4 hawl graidd a nodwyd yn yr hunanasesiad fel rhai yr oedd Ynys Môn ond wedi eu cyflawni'n rhannol yn ogystal â'r 3 dangosydd ansawdd a oedd ond wedi eu cyflawni'n rhannol. Hefyd, rhannodd y Swyddog wybodaeth am broffiliau llyfrgelloedd unigol gan gynnwys nifer yr ymwelwyr, eitemau a roddwyd ar fenthyg, y gost fesul ymweliad a chost fesul eitem a fenthycwyd. Mewn ymateb i ymholiadau ynglŷn â pheth o'r data, dywedodd y Swyddog y byddai'n adolygu'r ffigurau ac ailgylchredeg y wybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor am esboniad ynghylch y modd yr oedd y tanberfformiad cyfredol yn dylanwadu ar y Rhaglen Trawsnewid Llyfrgelloedd. Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai un o'r prif heriau yw sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. Mae toriadau cyllidebol o 10% wedi cael eu gweithredu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol gan arwain at ostyngiad yn nifer y staff. Gan mai staffio a chostau cynnal a chadw adeiladau yw prif wariant y Gwasanaeth mae'r rhain yn cael sylw fel rhan o'r adolygiad trawsnewid gwasanaethau sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghoriad yn bwydo i mewn i opsiynau a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo ym mis Chwefror, 2016 a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror, 2016 am fewnbwn cyn penderfynu pa opsiynau i ymgynghori'n ffurfiol arnynt. Mae'r ymgynghoriad felly mewn dau gam - cam anffurfiol i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau a fydd yn ffurfio sail i opsiynau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror ac ymgynghoriad statudol dilynol ar yr opsiynau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd opsiynau penodol ar y ffordd ymlaen ar gyfer y Gwasanaeth yn dod yn ôl gerbron y ym mis Medi 2016.

Nododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol -

- Bod rhaid cael eglurhad ar y broses ymgynghori ar yr adolygiad o'r Gwasanaethau Llyfrgell ac mae angen i'r cyhoedd a chymunedau fod yn ymwybodol bod yn ofynnol iddynt gymryd rhan yn y ddau gam o'r broses.
- Bod y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y prinder staff a'i oblygiadau ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell effeithlon ac yn ehangach ar gyfer gwella safonau addysgol a llythrennedd.
- Potensial i wneud defnydd mwy amrywiol o adeiladau llyfrgelloedd a'r angen i lyfrgelloedd ddatblygu mwy ar gysylltiadau gydag ysgolion lleol.

**Penderfynwyd -**

- **Nodi Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014/15**
- **Nodi Asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Llyfrgelloedd Blynyddol 2014/15 y Gwasanaethau Llyfrgell 2014/15 a'r materion sy'n codi ohono.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**9. GWERTHUSIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL AGGCC O WASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15**

Cyflwynwyd Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC a llythyr cysylltiedig ar gyfer 2014-15 er sylw'r Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn nodi gwerthusiad o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn 2014/15, gan gynnwys meysydd cynnydd allweddol o gynnydd a meysydd ar gyfer eu gwella.

Ymhelaethodd Mark Roberts p AGGCC ar y meysydd penodol ar gyfer eu gwella a meysydd o gynnydd yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fel y cofnodwyd yn yr adroddiad ac fe grynhodd y perfformiad fel a ganlyn -

- Yn y Gwasanaethau Oedolion mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ac yn cyflawni ei nod o gefnogi pobl i fod yn annibynnol ac mor hunangynhaliol â phosibl.
- Mae perfformiad cryf o ran cyflawni yn erbyn y cynllun busnes.
- Mae perfformiad mewn llawer maes yn gryf ac mae cynnydd yn cael ei wneud i gwrdd â thargedau'r Cyngor.
- Cymerwyd camau sylweddol i foderneiddio gwasanaethau.
- Bu llai o gynnydd o ran datblygu gwasanaethau i oedolion iau ac mae angen gwerthuso effaith y newid ar oedolion hŷn i sicrhau nad ydynt yn agored i unrhyw risgiau diangen.
- Yn y Gwasanaethau Plant, mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau lle mae'r gwelliant yn fregus.
- Mae angen gwelliant parhaus yn ansawdd y gwasanaethau.
- Bu canlyniadau da wrth gwrdd â thargedau perfformiad ond mae datblygu'r gwasanaeth wedi bod yn arafach yn y gwasanaethau plant.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi elwa o'r gwelliannau mewn cefnogaeth gorfforaethol, goruchwylio a sgriwtini.
- Mae'r capasiti i gyflawni cynlluniau gwella yn anhawster yn y gwasanaeth ac adlewyrchir hynny yn y diffyg cynnydd mewn perthynas â nifer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol.

'Roedd y pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth eang a gafwyd wedyn fel a ganlyn -

- Gofynnwyd am eglurhad ar y defnydd o'r gair "bregus" i ddisgrifio gwelliannau yn y gwasanaethau plant. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch gwydnwch y gwasanaethau a chynaliadwyedd gwelliannau i'r dyfodol. Oherwydd materion mewn perthynas â maint, capasiti, arbenigedd a phrofiad y gweithlu, ynghyd â materion mewn perthynas ag arferion a pherfformiad yn y gorffennol, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor yr ystyrir y gallai fod yn her i'r gwasanaethau plant gyflawni'r holl gyfrifoldebau a disgwyliadau sydd arno, a dyna pam y defnyddiwyd y gair 'bregus' i ddisgrifio'r gwelliannau mewn rhai meysydd.
- Materion recriwtio a chapasiti a'r angen am sefydlogrwydd yn y gweithlu Gwasanaethau Plant er mwyn datblygu'r profiad a'r arbenigedd angenrheidiol.
- Cadernid y gwasanaethau i fedru gwrthsefyll pwysau ariannol parhaus. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gallai rhai opsiynau cyllidebol gael effaith ar ansawdd, ond o ran gweithredu dewisiadau a wnaed yn y gorffennol, nid oes dim i awgrymu bod y rheini wedi bod yn afresymol neu nad ydynt wedi bod yn drylwyr.
- Cododd y Pwyllgor nifer o faterion gweithredol a chytunwyd y byddai modd rhoi sylw iddynt yn llawnach ac yn fwy priodol mewn cyfarfod at y diben hwnnw mewn perthynas ag -

    - Cwblhau dim ond 41 o asesiadau o 172 o geisiadau am Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac a yw hyn yn rhoi unigolion mewn sefyllfa beryglus. Hysbyswyd y Pwyllgor bod gofynion wedi newid yn sgil "Dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer" a bod llawer o'r achosion yn rhai hanesyddol i'w hailasesu yn sgil dyfarniad hwnnw. Mae'r Gwasanaeth yn fodlon bod capasiti wedi cael ei gryfhau i gyflawni'r gofynion a bod achosion risg uchel yn cael eu blaenoriaethu a'u bodloni.
    - A fyddai gweithio ar y cyd ag awdurdodau eraill yn gwella gwydnwch o ran gwasanaethau diogelu.
    - Y gostyngiad yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned
    - Y tueddiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y gwasanaethau plant o gynnydd yn nifer y cyfeiriadau a'r gostyngiad yn nifer yr asesiadau.

DRAFT

- Sefyllfa Ynys Môn o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru mewn perthynas â gwariant y pen ar wasanaethau cymdeithasol.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn adroddiad AGGCC a'r llythyr cysylltiedig.**
- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd gan AGGCC**
- **Bod atborth ar gynnydd a wnaed gyda'r materion blaenoriaeth a nodwyd gan AGGCC yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarterol.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Trefniadau ar gyfer adborth i'w hymgorffori o fewn rhaglen waith y Pwyllgor.**

**10. ADOLYGIAD ACHOS PENODOL GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant yn ymgorffori diweddariad gan y Panel Archwilio a benodwyd i archwilio camau a gymerwyd gan y gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed yn dilyn adolygiad manwl gan y Pennaeth Gwasanaeth o'r arferion mewn achos penodol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth Plant fod y panel sgriwtini wedi ei benodi i geisio sicrwydd bod yr adolygiad achos wedi ei gynnal yn drylwyr ac yn ddiduedd, a bod y gwasanaeth yn ymateb yn briodol i'r materion sy'n codi o'r achos a bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Rhoddwyd tystiolaeth i'r panel sgriwtini o sut mae'r pwyntiau dysgu a nodwyd gan yr adolygiad achos yn cael eu gweithredu.

Cadarnhaodd yr aelodau hynny o'r Pwyllgor Sgriwtini a fu'n gwasanaethu ar y panel sgriwtini ac a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn eu bod yn fodlon bod y Gwasanaeth wedi adolygu'r mater ac wedi nodi gwersi i'w dysgu. Maent hefyd yn fodlon eu bod wedi derbyn gwybodaeth a bod eu gwaith sgriwtini yn tystio i'r ffaith bod camau wedi eu cymryd, neu yn cael eu cymryd, yn erbyn y cynllun gweithredu.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**11. PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: CAEL GWARED AR ASEDAU**

Cyflwynwyd adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini i adolygu dull yr Awdurdod o reoli a chael gwared ar asedau ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Terfynol ynghyd â'i 6 phrif gasgliad a'r 25 o argymhellion unigol.**
- **Bod yr Adroddiad Terfynol yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr, 2015.**
- **Bod cofnodion pob cyfarfod o'r Panel Canlyniad Sgriwtini yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r Adroddiad Terfynol pan gaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn galendr a dim ond ar yr achlysur hwn.**
- **Bod yr Adroddiad Terfynol hwn yn sefydlu sylfaen a chynsail ar gyfer arferion gweithio, mewnbynnau a ffurf cyflwyno adroddiadau terfynol ar gyfer panelau sgriwtini eraill i'r dyfodol.**

- **Nodi bwriad y Panel i ailymgynnull mewn 9 mis (Medi, 2016) er mwyn monitro cynnydd gyda diwygio'r Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau a hefyd i archwilio Rhaglen Datblygu Mân-ddaliadau'r Cyngor.**

***(Ymataliodd y Cynghorydd Ann Griffith rhag pleidleisio)***

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**12 Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor at fis Ebrill, 2016 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro at y canlynol -

- Y gallai hi gadarnhau y bydd yr adroddiad ar yr adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ym mis Chwefror, 2016.
- Y bydd adroddiad ar sgôp, cylch gorchwyl ac aelodaeth y tri phanel canlyniad sgriwtini a benodwyd gan y Pwyllgor hwn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Chwefror 2016. Bydd dau o'r panelau hynny, sef Panel Gofalwyr Anffurfiol a Phanel Gosod Tai'r Awdurdod Lleol, yn cael eu sefydlu mewn ymateb i feysydd a nodwyd fel rhai a oedd yn tanberfformio yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a bydd y trydydd, sef Panel Diogelu Corfforaethol , yn cael ei sefydlu mewn ymateb i adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r Flaenraglen fel y cafodd ei chyflwyno.**

**Y Cynghorydd R Meirion Jones**

**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **1 Chwefror, 2016** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2016/17 (Refeniw a Cyfalaf)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Hywel Eifion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**AnwenDavies@anglesey.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn Berthnasol** |

**A – Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1. CEFNDIR**

1.1 Dilynwyd proses ddiwygiedig ar gyfer paratoi i osod cyllideb 2016/17 sydd wedi galluogi dull mwy systematig o sgriwtini ariannol (fel sylfaen hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn).

1.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151 a oedd yn ymgorffori drafft o'r gyllideb refeniw ddigyfnewid lefel uchel gychwynnol ar gyfer 2016/17 i'r Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd, 2015 er ystyriaeth a sylwadau. 'Roedd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r diffyg yn y gyllideb a ragwelwyd yn seiliedig ar y setliad tebygol gan Lywodraeth Cymru ar y pryd, ynghyd â'r cynigion arbedion a gyflwynwyd gan wasanaethau'r Cyngor i gyfrannu at gau'r bwlch cyllido. Bydd Aelodau'n cofio bod y Pwyllgor wedi ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd a'i fod wedi gofyn am eglurhad gan y Penaethiaid Gwasanaeth ar beth fyddai'r cynigion arbedion yn ei olygu o ran:

i. Effaith ar ddefnyddwyr a threthdalwyr;
ii. Effaith ar safonau gwasanaeth a'r ymgyrch i wella;
iii. Y gallu i'w cyflawni yn ystod 2016/17;
iv. Y posibilrwydd o arbedion effeithlonrwydd pellach i gyfrannu at y diffyg cyllido.

Mae crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor i'w weld yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor.

1.3 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] hefyd wedi derbyn adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151 ar y rhestr o fidiau cyfalaf yr argymhellir eu cymeradwyo ar gyfer rhaglen gyfalaf 2016/17 i 2020/21. Unwaith eto, mae crynodeb o drafodaeth y Pwyllgor i'w weld yng nghofnodion y cyfarfod;

1.4 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd, 2015

y Cyngor a bod gan yr heriau ariannol a wynebwn fel awdurdod lleol effaith bellgyrhaeddol – o ran y gwasanaethau a gynigir a'r Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau yr ydym yn eu codi[2]. Wrth iddi fynd yn anos dod o hyd i'r lefelau angenrheidiol o arbedion effeithlonrwydd, bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau yr ydym yn eu hwynebu. Bydd hyn yn golygu gofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol ac i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Hefyd, y ffordd orau o reoli disgwyliadau (yn fewnol ac yn allanol) wrth wneud y newidiadau angenrheidiol.

## 2. Y STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD

2.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Effeithlonrwydd sy'n darparu cyfeiriad clir i'r Awdurdod dros y 3 blynedd nesaf ac sy'n fodd o gyfathrebu sut 'rydym yn bwriadu cwrdd â'n heriau ariannol. Mae 8 egwyddor allweddol yn sail i'r strategaeth hon sef:

- Gwneud yn siwr bod y ffordd yr ydym yn gweithio ar draws y Cyngor cyfan yn sicrhau gwerth da o ran y ffordd yr ydym yn gwario arian
- Lleihau costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth
- Trawsnewid gwasanaethau y mae'r gyfraith yn rhoi dyletswydd arnom i'w darparu, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn fodern, effeithiol ac effeithlon
- Gweitho ar y cyd ag eraill lle gallai hynny arbed arian neu helpu i gynnal lefelau gwasanaeth
- Cael y gorau allan o'n staff
- Sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynhyrchu incwm i'r Cyngor
- Herio a ddylem barhau i ariannu gwasanaethau anstatudol nad ydynt yn hanfodol lle mae eraill hefyd yn eu darparu
- Deall effaith y cynigion ar Ynys Môn a'i thrigolion, yn enwedig y rhai sydd fwyaf angen ein gwasanaethau.

Dylai'r egwyddorion hyn yrru'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnir gan yr Awdurdod.

## 3. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2016/17

3.1 Ynghlwm mae adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151 ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2016/17 (**ATODIAD 1**) ac sy'n rhoi datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

i. Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
ii. Y setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol
iii. Sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig ar gyfer 2016/17
iv. Y Dreth Gyngor
v. Cronfeydd wrth gefn
vi. Cyllidebau Ysgolion.

## 4. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2016/17

**4.1** Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen i Aelodau gael sicrwydd bod y

[2] Raising the Stakes: financial scrutiny in challenging times: A guide for Welsh local authorities (Centre for Public Scrutiny Mehefin, 2014)

Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n prinhau, yn enwedig cyllid:

"… Mae pwysigrwydd Sgriwtini effeithiol yn cynyddu wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n mynd ati'n barhaus i geisio gwella gwasanaethau. Gall Sgriwtini effeithiol wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau'n dryloyw ac yn unol ag anghenion y gymuned leol…."

(Sgriwtini Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth Wella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Sgriwtini mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014)

Y cwestiwn allweddol o safbwynt Sgriwtini ddylai fod – Sut gallwn ychwanegu gwerth? O fewn y cyd-destun hwn, dylai Sgriwtini fedru dangos gwerth ychwanegol yn ystod pob cam o'r broses ariannol. Yn y cyd-destun hwn, mae rhai materion allweddol yn cynnwys:

i. **Y broses ei hun o osod y gyllideb**;
ii. Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg galwadau sy'n cystadlu;
iii. Defnydd effeithiol o gyllid;
iv. Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

**4.2** Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith; mae a wnelo â sicrhau sgriwtini priodol o ran cynllunio, gweithredu a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n effeithio ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Felly, dylai sgriwtini:

- ddarparu her effeithiol
- ddal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod drwy roi prawf ar sut gwneir dewisiadau ynghylch dyrannu adnoddau a pha mor dda y caiff adnoddau eu defnyddio i gyflawni ein amcanion polisi.

## 5. NEGESEUON ALLWEDDOL O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

5.1 Amgaeir adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rhaglenni sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd gan y Cyngor (**ATODIAD 2**).

## 6. CWESTIYNAU SGRIWTINI ALLWEDDOL

6.1 O ran y broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried ei safbwynt terfynol ar gyllideb gychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2016/17 cyn i'r Pwyllgor Gwaith[3] ystyried y gyllideb derfynol arfaethedig ym mis Mawrth;

6.2 Cynigir bod y cwestiynau allweddol canlynol yn sail ar gyfer trafodaethau'r Pwyllgor wrth ystyried y gyllideb a gynigir ar gyfer 2016/17. (Er hwylustod, mae'r cwestiynau wedi'u croesgyfeirio i'r paragraffau perthnasol yn adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151):

i. A ddylid ddod o hyd i'r holl o'r arbedion a nodwyd fel rhai cyraeddadwy ym

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith i'w gynnal ar 7 Mawrth, 2016

2016/17 o ystyried y bydd sicrhau cymaint o arbedion â phosibl yn caniatau mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb i bwysau ar wasanaethau a gofynion o ran arbedion yn y dyfodol? **[paragraff 4]**

ii. A ydy'r Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, bod swm yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau mewn prosesau busnes wedi'u dylunio i ryddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd y gellir eu defnyddio i ymateb i welliannau/bwysau ar wasanaethau? **[paragraff 5]**

iii. Beth ddylai lefel y Dreth Gyngor fod ar gyfer y dyfodol yn wyneb y materion a godir gan y Pennaeth Adnoddau yn ei adroddiad, y cyfraniad mae'r Dreth Gyngor yn ei gwneud at refeniw cyffredinol y Cyngor a'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu o 2017/18 ymlaen? **[paragraff 6]**

iv. Pa lefel o warchodaeth y dylid ei rhoi i gyllidebau ysgolion o gofio'r angen i ysgolion gyfrannu at yr arbedion cyffredinol y mae eu hangen ar y Cyngor? **[paragraff7 ]**

v. Os bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith i weithredu arbedion effeithlonrwydd yng nghyllidebau ysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ynghylch a ddylai lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn y sector cynradd ddylanwadu ar y penderfyniad o ran sut y bydd yr arbedion yn cael eu dyrannu ar draws y sectorau **[paragraffau 7.4 a 7.5]**

vi. A oes gan y Pwyllgor Sgriwtini unrhyw sylwadau pellach ar y gyllideb gyfalaf arfaethedig? **[paragraff 8]**

vii. Sut mae cynigion cyllidebol 2016/17 yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Drawsnewid? A oes unrhyw risgiau penodol?

viii. Sut mae egwyddorion Strategaeth Effeithlonrwydd y Cyngor yn sylfaen ar gyfer y cynigion arbedion?

## 7. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig y Cyngor am 2016/17 (gan ddefnyddio'r Cwestiynau Sgriwtini Allweddol ym mharagraff 6 uchod), a chan ystyried y negeseuon allweddol o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus diweddar.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Ddim yn Berthnasol. |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini fel y cynhwysir hwy yng Nghyfansoddiad y Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |

| |
|---|
| Ddim yn Berthnasol. |

| **DD – Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Y Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr wedi cyfrannu at yr adroddiad drafft ac mae ei sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adain 151** (gorfodol) | Mae'r Pennaeth Adnoddau/Swyddog A151 wedi cyfrannu at yr adroddiad drafft. Mae ei sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Dilynwyd proses ddiwygiedig ar gyfer paratoi i osod cyllideb 2016/17 sydd wedi galluogi dull mwy systematig o sgriwtini ariannol (fel sylfaen hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn).<br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnig fframwaith i gefnogi'r Pwyllgor Sgriwtini'n y dasg o gytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig y Cyngor am 2016/17 – gan ddefnyddio'r Cwestiynau Allweddol ym Mharagraff 6 o'r adroddiad hwn. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn Berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill/ au** | Ddim yn Berthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw liniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn Berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn Berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn Berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn Berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldeb** | Ddim yn Berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Ddim yn Berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn Berthnasol |

**F - Atodiadau:**

i. Adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adain 151 ar gyllidebau refeniw a chyfalaf 2016/17 (**ATODIAD 1**);
ii. Adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rhaglenni sy'n crynhoi'r negeseuon o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus diweddar a gynhaliwyd gan y Cyngor (**ATODIAD 2**).

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dros, Cyngor Sir Ynys Môn, Swydfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW.

**CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2016/17**

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

**1.1.** Mae Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2016/17 i 2019/20 yn nodi sefyllfa ariannol rhagamcanedig y Cyngor. Mae'n nodi y bydd gostyngiad sylweddol mewn cyllid llywodraeth (Cyllid Allanol Cyfun CAC) ac y bydd angen nodi arbedion refeniw sylweddol a chynyddu'r  Dreth Gyngor ar gyfradd a fydd yn uwch na chwyddiant er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Ceir crynodeb o'r CACT yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2016/17 i 2019/20**

| | 2016/17<br>£ 'm | 2017/18<br>£ 'm | 2018/19<br>£ 'm | 2019/20<br>£ 'm |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net D / Y | 124.6 | 121.9 | 119.4 | 117.8 |
| Pwysau Cyllidebol a Chwyddiant | 2.3 | 2.6 | 2.7 | 2.7 |
| **Cyllideb Ddiwygiedig** | **126.9** | **124.5** | **122.1** | **120.5** |
| Cyllid Allanol Cyfun | (89.6) | (86.1) | (83.5) | (81.0) |
| Y Dreth Gyngor | (32.3) | (33.3) | (34.3) | (35.3) |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **121.9** | **119.4** | **117.8** | **116.3** |
| | | | | |
| **Arbedion y mae eu hangen** | **5.0** | **5.1** | **4.3** | **4.2** |
| **Prif Dybiaethau** | | | | |
| Dyfarniadau Tâl | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 1.25% | 1.50% | 1.50% | 1.50% |
| Gostyngiad yn y CAC | -4.5% | -3% | -3% | -3% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 4.5% | 3% | 3% | 3% |

**1.2.** Mae'r tabl uchod yn dangos lefel y gostyngiadau cyllidebol sy'n ofynnol dros y 4 blynedd nesaf ac amcangyfrifir y bydd rhaid  sicrhau gostyngiad o 6.6% yn y gyllideb refeniw erbyn 2020 ac y bydd angen dod o hyd i arbedion sy'n cyfateb i 15% o'r gyllideb refeniw net am 2015/16. Mae'r rhain yn ychwanegol at y newidiadau cyllido yn 2015/16, lle gwelwyd gostyngiad o 3.9% yn y CAC, arbedion o £4.3m a chynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor.

## 2. CYNIGION CYCHWYNNOL Y PWYLLGOR GWAITH AR GYFER Y GYLLIDEB

**2.1.** Oherwydd Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU, cafwyd oedi o ran yr amserlen arferol ar gyfer cyhoeddi'r setliadau dros dro a therfynol i lywodraeth leol ac, o ganlyniad, bu'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ddechrau ymgynghori ar eu cynigion cyllidebol cychwynnol cyn derbyn y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol.

**2.2.** Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2015, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb ddigynnydd o £126.7m ac, yn seiliedig ar lefel dybiedig o £88.8m ar gyfer y CAC a Threth  Gyngor o £32.3m (cynnydd o 4.5%), gadawodd hyn ddiffyg cyllidebol o £5.5m.

**2.3**. Gwnaed gwaith yn ystod yr haf i nodi arbedion cyllidebol a nodwyd oddeutu £4m o arbedion posibl. Rhoes y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sylw i'r cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd, 2015.

**2.4.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Cynigion Cyllideb Gychwynnol y Pwyllgor Gwaith am gyfnod o saith wythnos rhwng 16 Tachwedd 2015 a 31 Rhagfyr 2015. Ceir manylion pellach am y negeseuon allweddol a gododd o'r Ymarfer Ymgynghori Cyhoeddus mewn crynodeb ar wahân.

## 3. Y SETLIAD DROS DRO I LYWODRAETH LEOL

**3.1**. Cyhoeddwyd y setliad dros dro i Lywodraeth Leol am 2016/17 ar 9 Rhagfyr, 2015. Dangosodd y setliad cyffredinol ar gyfer Cymru ostyngiad o 1.4% mewn cyllid o'i gymharu â 2015/16 (ar ôl caniatáu ar gyfer yr addasiad o drosglwyddiadau i mewn i'r Grant Cynnal y Dreth GCD). Mae'r setliad yn cynnwys £21m ychwanegol i gydnabod y rôl hollbwysig sydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran gwella canlyniadau i'r mwyaf bregus a £35m ychwanegol i flaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion.

**3.2.** O ran y setliad dros dro ar gyfer Ynys Môn, cafodd y CAC (Cyllid Allanol Cyfun) ei osod ar £91.925m o gymharu â'r CAC (wedi'i addasu) o £93.841m ar gyfer 2015/16. Mae hyn yn ostyngiad o £1.916m (2.04%). Mae hwn yn ganlyniad llawer gwell na'r toriad o £4.2m a ragwelwyd yn y CATC.

**3.3.** Mae'r gostyngiad cyffredinol mewn cyllid ar draws Cymru yn amrywio o ostyngiad o 0.1% ar gyfer Caerdydd i ostyngiad o 4.1% ar gyfer Powys. O'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Ynys Môn dderbyniodd y gostyngiad 6 uchaf yn ei gyllid.

**3.4.** Nid yw'r cyhoeddiadau a wnaed hyd yma gan Lywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw gyfeiriad at setliadau yn y dyfodol, ond mae'n rhesymol tybio bod y lefel is o doriadau ar gyfer 2016/17 yn eithriad i'r patrwm arferol o setliadau ac y bydd pwysau i leihau cyllidebau sector cyhoeddus yn parhau ac y bydd y toriad yn 2017/18 i 2019/20 yn fwy tebyg i setliadau blaenorol a rhagolygon blaenorol e.e. 3% +.

**3.5.** Mae datganiad Llywodraeth Cymru ar y gyllideb ddrafft yn dangos y bydd gostyngiad o 3.75% yn setliad refeniw cyffredinol Llywodraeth Cymru mewn termau real rhwng 2016/17 a 2019/20. Os bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Setliad i Lywodraeth Leol, yna byddai hyn yn arwain at doriad pellach o £3.5m yn y CAC ar gyfer Ynys Môn erbyn 2019/20. Fodd bynnag, os cymerir i ystyriaeth y ffaith nad yw llywodraeth leol wedi derbyn yr un lefel o amddiffyniad rhag toriadau yn y gyllideb â sectorau eraill, e.e. iechyd, a'r ffaith bod Ynys Môn yn draddodiadol yn derbyn setliad is na'r cyfartaledd, gellir disgwyl y bydd y gostyngiad yn y CAC mewn termau real yn fwy na £3.5m.

**3.6.** O ystyried bod y Cyngor yn debygol o wynebu pwysau cyllidebol, na fyddant yn cael eu hariannu yn y setliad, bydd hyn hefyd yn cynyddu lefel yr arbedion y bydd angen eu gwneud. Felly, mae'n rhaid i ni edrych ar setliad 2016/17 fel eithriad ac y bydd y pwysau i nodi arbedion pellach sylweddol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf yn parhau.

## 4. SEFYLLFA DDIWYGIEDIG CYLLIDEB 2016/17

**4.1.** Mae'r gyllideb ddigynnydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2015 yn cynnwys swm dros dro sy'n ymwneud â'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr yn dilyn diddymu'r ad-daliad ar gyfer cynlluniau pensiwn sy'n cael eu contractio allan. Roedd y swm dros dro o £1.5m wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddigynnydd ond mae gwaith manwl pellach wedi nodi y bydd y cynnydd yn £1.3m ac o ganlyniad, gwelwyd gostyngiad o £0.2m yn y gyllideb ddigynnydd.

**4.2.** Yn ogystal, mae'r Cytundeb Statws Sengl wedi gostwng costau teithio sy'n daladwy i weithwyr o 52.3c y filltir i 45c y filltir, sef gostyngiad o 14%. O ganlyniad, gwelwyd 14% o ostyngiad yn yr holl gyllidebau teithio ac mae hyn wedi creu arbedion pellach o £ 0.1m.

**4.3.** Gan gymryd i ystyriaeth y setliad dros dro a'r gyllideb ddigynnydd ddiwygiedig, mae'r bwlch cyllido presennol i'w weld yn Nhabl 2 isod. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw arbedion cyllidebol a nodwyd hyd yn hyn.

**Tabl 2**
**Cyllideb Refeniw 2016/17 – y sefyllfa fel yr oedd ar 1 Chwefror, 2016**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Ddigynnydd 2016/17 - Hydref 2015 | | 126.8 |
| Llai Addasiadau | | |
| Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr | (0.2) | |
| Cyllidebau Costau Teithio | (0.1) | |
| Addasiadau Eraill | 0.1 | |
| | | (0.2) |
| **Cyllideb Ddigynnydd Ddiwygiedig 2016/17 - Chwefror 2016** | | **126.6** |
| **Wedi'i hariannu gan** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (70.6) | |
| NNDR | (21.3) | |
| Y Dreth Gyngor - gan dybio cynnydd o 4.5% | (32.4) | |
| **Cyfanswm Cyllid 2016/17** | | **(124.3)** |
| **Diffyg Cyllido** | | **2.3** |

**4.4.** Yn y cynigion cyllidebol cychwynnol, nodwyd £3.91m o arbedion. Mae'r math o arbedion yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Dadansoddiad o Arbedion Arfaethedig yn ôl Math**

| **Categori Arbedion** | **£'m** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Cael gwared ar gyllidebau sydd heb eu defnyddio / nad oes eu hangen mwyach | 0.29 | |
| Swyddi Gwag / nad oes eu hangen mwyach | 0.40 | |
| Cynhyrchu Incwm | 0.32 | |
| Aildendro Gwasanaethau | 0.16 | |
| Trawsnewid Gwasanaethau | 0.53 | Yn cynnwys £300k o arbedion o ran casglu gwastraff |
| Rhoi'r Gorau / Trosglwyddo Gwasanaeth | 0.60 | Yn cynnwys cyfalafu £200k o gostau cynnal a chadw priffyrdd a £00k o arbedion ar y contract glanhau |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | 1.23 | Yn cynnwys gostyngiad o £1m mewn cyllidebau ysgolion |
| Gostyngiad mewn Grantiau a Ddyfarnwyd | 0.38 | Yn cynnwys gostyngiad o £250k mewn taliadau i'r trydydd sector |
| **CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG** | **3.91** | |

**4.5** Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud ar allu'r Cyngor i sicrhau'r arbedion hynny ac mae'r rhestr o arbedion wedi cael ei haddasu yn unol â hynny.

**Tabl 4**
**Gwerth Diwygiedig yr Arbedion posibl yng Nghyllideb 2016/17**

| | £'m | Sylw |
|---|---|---|
| Arbedion y gellir eu cyflawni yn 2016/17 | 2.78 | Yn cynnwys gostyngiad o £1m yn y gyllideb i ysgolion |
| Yn bosibl, ond angen gwaith pellach | 0.42 | |
| Nid ystyrir eu bod yn ymarferol ar hyn o bryd | 0.71 | |
| **CYFANSWM ARBEDION ARFAETHEDIG** | **3.91** | |

**4.6**. Yn Nhabl 5 isod, manylir ar yr arbedion nad ydynt, fe ystyrir, yn ymarferol yn ystod 2016/17:-

**Tabl 5**
**Arbedion Arfaethedig nad ydynt yn cael eu hystyried fel rhai ymarferol**

| Arbediad Arfaethedig | £'m | Sylw |
|---|---|---|
| Gwerthu Garreglwyd | 0.07 | Nid yw'r gwerthiant yn mynd yn ei flaen |
| Cael gwared ar swydd nad oes ei hangen mwyach | 0.03 | Dyblygu arbediad a gynigiwyd gan wasanaeth arall |
| Casglu Gwastraff | 0.26 | Gostyngiad yn y Grant Amgylcheddol a chasglu gwastraff pob 3 wythnos yn hytrach na 4 yn lleihau'r arbedion posibl. |
| Cyllideb Llyfrau'r Tîm Cyfreithiol | 0.02 | Angen £20k o'r gyllideb £40k i gyllido ymrwymiadau presennol |
| Cynyddu lefel y Taliadau Uniongyrchol | 0.05 | Gorwariant ar y gyllideb yn 2015/16, annhebygol o fedru gweithredu'r newidiadau sy'n ofynnol i sicrhau arbedion yn 2016/17. Arbediad posibl ar gyfer 2017/18. |
| Cynyddu incwm meysydd parcio | 0.03 | £30k yn brin o'r targed yng nghyllideb 2015/16. Bydd y cynnydd arfaethedig yn gwneud i fyny am y diffyg ond ni fydd yn darparu incwm ychwanegol ar ben y gyllideb bresennol |
| Taliadau i'r Trydydd Sector | 0.25 | Potensial ar gyfer toriadau yn llawer llai na'r hyn a ragwelwyd ar y cychwyn, cyfanswm yn annhebygol o fod yn fwy na £50k |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU ARBEDION NAD YDYNT YN YMARFEROL** | **0.71** | |

**4.7**. Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys unrhyw arbedion a geir drwy'r broses diswyddo gwirfoddol. Derbyniwyd 63 o geisiadau (ac eithrio athrawon a staff cymorth ysgolion), cymeradwywyd 31 o geisiadau a byddir yn gwneud penderfyniad ar 7 o geisiadau ar ôl gwneud gwaith pellach. Cafodd 25 cais arall eu gwrthod. Mae rhai gwasanaethau wedi defnyddio'r cyfle i aildrefnu strwythurau staffio gan olygu nad yw cyflog llawn y swyddog a ryddhawyd yn cael ei gynnig fel arbediad oherwydd bod angen arian i godi graddfeydd y swyddi sydd ar ôl.

**4.8.** Bydd ddiswyddiadau gwirfoddol at ei gilydd yn sicrhau arbedion pellach gwerth £400k er bod gwaith yn mynd rhagddo i gael ffigwr terfynol.

**4.9.** Os cymerir yn ganiataol y bydd 50% o'r arbedion posibl o £0.42m yn cael eu gwireddu, ynghyd â'r rheiny y tybir y bydd modd eu cyflawni a'r arbedion a geir o ddiswyddiadau gwirfoddol, bydd cyfanswm yr arbedion a nodwyd yn £3.4m, sydd £1.1m yn uwch na'r diffyg yn y gyllideb.

**4.10.** Gan fod y bwlch yn y gyllideb yn is nag a ragwelwyd yn flaenorol a bod mwy o arbedion nag sy'n ofynnol i gydbwyso'r gyllideb wedi cael eu nodi, efallai y bydd galw i leihau'r arbedion yn 2016/17. Ni fyddwn yn cefnogi'r dull hwn o weithredu a byddwn yn pwysleisio'r angen i gyflawni cymaint o arbedion yn 2016/17 ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau i ddelio â'r gostyngiadau pellach yn 2017/18 i 2019/20. Byddai hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor yn ei strategaeth gyllidebol ar gyfer y dyfodol.

## 5. CRONFEYDD WRTH GEFN Y CYNGOR

**5.1.** Ar 31 Mawrth 2015, roedd £7.193m yng Nghronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor sy'n cyfateb i 5.77% o gyllideb refeniw net 2015/16, 8.4% heb gynnwys y gyllideb a ddirprwywyd i ysgolion. Mater i'r Cyngor yw penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn, fodd bynnag, fel rheol, ac fel arfer dda, dylai lefel y cronfeydd wrth gefn fod o leiaf 5% o'r gyllideb refeniw flynyddol (ac eithrio cyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion). Yn seiliedig ar gyllideb refeniw 2015/16 byddai angen £4.5m yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

**5.2.** Mewn cyfnod o galedi ariannol, mae cyllidebau'n cael eu gostwng ac nid oes capasiti i ddelio gyda'r cynnydd mewn galw yn enwedig yn y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw hwnnw, e.e. y Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, gellir dadlau bod mwy o angen cronfeydd wrth gefn cyffredinol oherwydd y bydd y risg o orwario yn cynyddu ac y bydd angen mwy o adnoddau ariannol ar y Cyngor er mwyn lleihau'r risg.

**5.3.** Yn fy marn broffesiynol i, byddai lleihau lefel y gronfa wrth gefn gyffredinol i £4.5m yn risg annerbyniol ar hyn o bryd o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid yn y dyfodol ond mae sgôp i leihau rhywfaint ar lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Fodd bynnag, nid wyf yn argymell y dylai cronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio fel ffordd o wneud i fyny am ddiffyg ariannol mewn blwyddyn benodol, byddai hyn ond yn gohirio'r angen i wneud toriadau yn y gyllideb i'r flwyddyn nesaf.

**5.4.** Fodd bynnag, mae sgôp i ddefnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn i ddarparu cymorth TG ar gyfer trawsnewid prosesau busnes. Bydd angen gwneud gwaith pellach i bennu lefel y cyllid sydd ei angen a byddai'n rhaid i bob achos busnes unigol ddangos bod y prosiect yn cyflawni arbedion ariannol yn y dyfodol.

## 6. Y DRETH GYNGOR

**6.1.** Roedd taliadau Band D y Dreth Gyngor yn £1,025.57 ar gyfer 2015/16 sef yr 8fed isaf yng Nghymru. Yn bwysicach, sut mae lefel y Dreth Gyngor Ynys Môn yn cymharu â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru? Mae'r gymhariaeth yn Nhabl 6 isod:-

**Tabl 6**
**Cymharu Taliadau Band D y Dreth Gyngor yn Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D £ | Swm yn Uwch / Yn Is nag Ynys Môn £ | Canran yn uwch / yn is nag Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,025.57 | | |
| Gwynedd | 1,161.07 | + 135.50 | + 13.2% |
| Conwy | 1,013.11 | - 12.46 | -1.2% |
| Sir Ddinbych | 1,142.22 | 116.65 | + 11.4% |
| Sir y Fflint | 1,025.27 | -0.30 | 0.0% |
| Wrecsam | 994.23 | -31.34 | -3.1% |

**6.2.** Mae pob un o Gynghorau Gogledd Cymru wedi ymgynghori ar eu cynigion ar gyfer cyllideb 2016/17. Cafodd y cynigion eu cyhoeddi cyn derbyn y setliad dros dro ac, fel Ynys Môn, roedd pob Cyngor yn rhagweld setliad gwaeth na'r un a gafwyd ac mae eu cynigion yn adlewyrchu hyn. Ar hyn o bryd, nid yw eu cynigion terfynol wedi cael eu cyhoeddi ond, yn dilyn cais answyddogol am wybodaeth, cafwyd y manylion isod:-

**Tabl 7**
**Y Cynnydd yn y Dreth Gyngor 2016/17 ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Cynnydd Arfaethedig Cychwynnol | Tâl Band D Arfaethedig £ | Cynnydd Diwygiedig Arfaethedig | Band Tâl D Diwygiedig Arfaethedig £ |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 4.50% | 1,071.72 | I'w benderfynu | |
| Gwynedd | 3.50% | 1,164.57 | 3.5% - 4.5% | 1,164.57 (yn tybio cynnydd o 3.5%) |
| Conwy | 5.00% | 1,063.77 | 5% | 1,063.77 |
| Sir Ddinbych | 2.75% | 1,173.63 | 1.5% | 1,159.38 |
| Sir y Fflint | 3.00% | 1,056.03 | 5% | 1,076.49 |
| Wrecsam | 3.00% | 1,024.06 | 2.9% | 1,053.72 |

**6.3.** Mae'r Dreth Gyngor yn cyfrif am tua 25% o gyllid y Cyngor ac, i wneud iawn am y gostyngiad yn y CAC, byddai angen cynnydd 6.2% yn y Dreth Gyngor ac nid yw hynny'n bosibl (oherwydd rheoliadau capio).

**6.4.** Cyllideb y Dreth Gyngor ar gyfer 2015/16 (ar ôl gwneud addasiad ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor) oedd £31.024m. Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £310,000 ychwanegol. Cynnig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith oedd cynnydd o 4.5% yn y Dreth Gyngor a fyddai'n creu £ 1.396m ychwanegol ac yn golygu y bydd y Dreth Gyngor Band D yn £1,071.72, sef cynnydd o £46.15 (£0.89 yr wythnos).

**6.5.** O ystyried bod y setliad yn well na'r disgwyl, mae'r Pwyllgor Gwaith wrthi'n ystyried a oes angen y cynnydd o 4.5%. Petai'r cynnydd yn cael ei gyfyngu i 3.5% neu 4% y byddai'n cael yr effaith ganlynol ar lefel yr incwm a gesglir ac ar y Tâl Band D:-

**Tabl 8**
**Effaith y Cynnydd Is ar Dâl Band D y Dreth Gyngor**

| Canran y Cynnydd | Newid o ran Cyllid Cyffredinol y Cyngor £ | Tâl Band D 2016/17 £ | Cynnydd gymharu â Thâl 2015/16 £ |
|---|---|---|---|
| 4.5% | + 1.396m | 1,071.72 | 46.15 |
| 4.0% | + 1.241m | 1,066.59 | 41.02 |
| 3.5% | + 1.086m | 1,061.46 | 35.89 |

6.6 Mae datganiad ysgrifenedig y Gweinidog, a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r setliad dros dro, hefyd yn cynnwys cyfeiriad canlynol at osod Y Dreth Gyngor: -

*"...For 2016-17, I expect every Authority to take account of all the available funding streams in considering service provision and setting their budgets and Council Tax. Whilst the Revenue Support Grant is the largest single source of funding for Local Authorities, it is not the only one.*

*In setting council tax levels for 2016-17, I urge Local Authorities to think seriously about the funding challenges they face and to balance this with a consideration of the financial burden on households. We offer considerable flexibility to Authorities in Wales which is not available to their counterparts in England.... "*

**6.7.** Dylid nodi y dylai lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor adlewyrchu gofynion incwm y Cyngor ac mae'n rhaid hefyd cymryd i ystyriaeth ddatganiad y Gweinidog y manylir arno uchod. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod y cynnydd ar gyfer 2016/17 yn gosod y sefyllfa sylfaenol ar gyfer 2017/18 ac ni fedrir ond adfer y sefyllfa sail is drwy gynnydd uwch yn 2017/18.

**6.8.** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried a ddylai'r Pwyllgor Gwaith leihau'r cynnydd canrannol arfaethedig o 4.5% yn y Dreth Gyngor.

## 7. CYLLIDEB YSGOLION ADDYSG

**7.1.** Roedd y Cyllidebau Unigol i Ysgolion (ISB) a chyllid arall a ddatganolir i ysgolion (ac eithrio cyllidebau a ariennir gan grant) ar gyfer 2015/16 yn £38.750m (ar ôl caniatáu ar gyfer effaith Arfarnu Swyddi).

**7.2.** Roedd y setliad dros dro yn cynnwys £35m ychwanegol ledled Cymru i flaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion. Mae'r swm ychwanegol yn cyfateb i 1% ychwanegol uwchlaw'r cynnydd o 0.85% yn y Grant Bloc i Gymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cadarnhau gyda gweision sifil y dylai'r cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion gael ei adlewyrchu yng nghyllidebau'r ysgolion sydd, yn achos Ynys Môn, yn cyfateb i £717,000 h.y. yn nhermau arian parod dylai cyllidebau'r ysgolion gynyddu gan y swm hwn.

**7.3.** Roedd y gyllideb ddigynnydd ar gyfer 2016/17 yn £40.455m, sef £1.705m yn uwch mewn termau arian parod na'r gyllideb ar gyfer 2015/16 a £0.988m yn uwch na'r cynnydd ariannol a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y pwysau ar y gyllideb a gafodd eu hariannu yn cynnwys y canlynol:- Tâl Incrementau a Dyfarniadau Cyflog - £503k, Cynnydd yn y Cyfraniad at Bensiynau Athrawon - £183k, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol - £691k, Cynnydd mewn Niferoedd Disgyblion - £207k, Addasiadau Cyllidebol Arall - £121k.

**7.4.** Yn unol â gofynion Rheoliadau Ariannu Ysgolion (Cymru) 2010, mae ysgolion unigol yn cadw cronfa wrth gefn a chaiff unrhyw warged / diffyg gwariant yn erbyn y gyllideb ei gredydu / ei godi yn ei herbyn ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y balans sydd wedi cronni yn y 3 sector ar gyfer y cyfnod 2011-2015:-

**Tabl 9**
**Dadansoddiad o Falansau Ysgolion 2011-2015**

| Blwyddyn | Balans Cronfeydd Wrth Gefn £ '000 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynradd | Uwchradd | Arbennig | CYFANSWM |
| Mawrth 31, 2011 | 1,084 | 1,013 | 149 | **2,246** |
| Mawrth 31, 2012 | 778 | 384 | 90 | **1,252** |
| Mawrth 31, 2013 | 996 | 160 | 28 | **1,184** |
| Mawrth 31, 2014 | 1,204 | 309 | 5 | **1,518** |
| Mawrth 31, 2015 | 1711 | 629 | 98 | **2,438** |
| Mawrth 31, 2016 (rhagamcenir - gweler nodyn 1 isod) | 1,304 | 31 | 26 | **1,361** |

Nodyn 1 - Fel rhan o'r broses gyllidebol ar gyfer 2015/16, defnyddiodd ysgolion unigol eu cronfeydd wrth gefn er mwyn mantoli eu cyllidebau. Mae'r ffigwr rhagamcanol i 31 Mawrth 2016 yn cymryd i ystyriaeth y cronfeydd a ddefnyddiwyd ond nid yw'n ystyried unrhyw dan/orwariant yn 2015/16 a fydd yn cael ei gredydu / ei godi ar falansau ysgolion unigol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**7.5.** Gellir gweld o Dabl 9 mai ysgolion cynradd sydd â'r rhan fwyaf o'r balansau refeniw wrth gefn (70% o gyfanswm y balans ar 31 Mawrth 2015 a 96% o'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2016). Er nad yw lefel y cronfeydd wrth gefn yn uniongyrchol yn dangos pa sector allai gymryd y lefel uchaf o ostyngiad yn eu cyllidebau, mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadeiladu i fyny o gyllidebau na chawsant eu defnyddio yn y blynyddoedd blaenorol.

**7.6.** Mae'r Gyllideb Ysgolion Addysg yn cyfrif am dros 30% o gyllideb refeniw net y Cyngor a byddai eithrio ysgolion rhag y gofyniad i gyflawni arbedion refeniw yn rhoi mwy o bwysau ar weddill y gwasanaethau, e.e. petai'r Cyngor yn gorfod arbed £5m o gyllideb refeniw net o £125m, byddai hynny'n cyfateb i 4% o doriad. Petai'r gyllideb Ysgolion o £38.75m yn cael ei heithrio rhag gorfod canfod arbedion, yna, mae £5 miliwn yn cyfateb i 5.8% o'r gyllideb sy'n weddill.

**7.7.** I bob pwrpas gellir cyflawni cynnig presennol y Pwyllgor Gwaith i dorri £1m o gyllideb yr ysgolion a gofalu ar yr un pryd fod modd cwrdd â'r angen i sicrhau cynnydd o 1.85% yn y gyllideb arian parod. £938k yw'r arbediad mwyaf y gellir ei wneud tra'n parhau i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru.

## 8 CYLLIDEB GYFALAF

**8.1.** Yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2015, rhoes y Pwyllgor Gwaith sylw i'r bidiau cyfalaf a gyflwynwyd ac yr argymhellwyd eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf am y cyfnod 2016/17 i 2019/20. Cafodd yr adroddiad ei ystyried hefyd gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd, 2015.

**8.2.** Gellir crynhoi'r strategaeth gyfalaf fel a ganlyn: -

**Tabl 10**
**Crynodeb o Strategaeth Gyfalaf 2016/17 i 2019/20**

| | 2016/17 £'m | 2017/18 £'m | 2018/19 £'m | 2019/20 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf Arfaethedig | **26.301** | **17.772** | **23.980** | **22.325** |
| Wedi'i ariannu gan: - | | | | |
| Grantiau Cyfalaf Penodol | 15.662 | | | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2.120 | | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1.333 | | | |
| Cyfraniad Refeniw | 0.500 | | | |
| Benthyca â Chymorth | 2.189 | | | |
| Benthyca Di-gefnogaeth | 4.497 | | | |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **26.301** | | | |

**8.3.** Hyd yma, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r cynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun hwn a'r bwriad yw y bydd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2016/17 yn seiliedig ar y strategaeth hon.

## 9. CWBLHAU'R CYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF

**9.1**. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried eu cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth, 2016. Yn y cyfarfod, bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried y sefyllfa ariannol yn dilyn derbyn y setliad dros dro, canlyniadau'r broses ymgynghori a sylwadau'r Pwyllgor hwn.

**9.2.** Cawsom ar ddeall na fydd ffigyrau'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru i law tan 9 Mawrth 2016. Mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol er gwnaed cynnig i gynnwys Grantiau Addysg Ysgolion yn y setliad, ond nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau. Mae risg o hyd y gallai ffigyrau'r setliad newid rhwng y Pwyllgor Gwaith ar 7 Mawrth 2016 ac adeg derbyn y setliad terfynol ar 9 Mawrth 2016. Ystyrir bod y risg yn isel, a bydd unrhyw newid yn cael ei ariannu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn os bydd angen. Byddai unrhyw newidiadau yn cael eu hymgorffori yn y penderfyniad ar y dreth gyngor a gyflwynir i'r Cyngor Llawn (10 Mawrth).

**9.3.** Bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol a'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Mawrth, 2016. Dylid nodi y bydd angen i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, bennu'r Dreth Gyngor erbyn 11 Mawrth 2016.

## 10. ARGYMHELLION

**10.1**. Mae'r adroddiad uchod yn manylu ar y materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â phennu cyllideb refeniw 2016/17 a gwahoddir yr Aelodau i roi sylwadau ar y canlynol: -

1. A lwyddwyd i ddod o hyd i gymaint o arbedion ymarferol â phosib yn 2016/17 o ystyried y bydd sicrhau cymaint o arbedion â phosibl yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r Cyngor ymateb i bwysau ar wasanaethau a gofynion o ran arbedion yn y dyfodol - gweler paragraff 4.

2. A fydd yr Aelodau'n cefnogi argymhelliad, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, bod swm yn cael ei ddyrannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau mewn prosesau busnes sydd wedi'u dylunio i ryddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd y gellir eu defnyddio i ymateb i welliannau / pwysau ar wasanaethau - gweler paragraff 5.

3. Lefel y Dreth Gyngor ar gyfer y dyfodol yn wyneb y materion a nodir yn yr adroddiad hwn, y cyfraniad y mae'r Dreth Gyngor yn ei wneud tuag at refeniw cyffredinol y Cyngor a'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu o 2017/18 ymlaen - gweler paragraff 6 .

4. Lefel y warchodaeth a roddir i gyllidebau ysgolion gan gadw mewn cof yr angen i ysgolion gyfrannu at yr arbedion cyffredinol y mae'r Cyngor yn gofyn amdanynt - gweler paragraff 7.

5. Os bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Gwaith i weithredu arbedion effeithlonrwydd yng nghyllidebau'r ysgolion, gofynnir i Aelodau wneud sylwadau ynghylch a ddylai lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn y sector cynradd ddylanwadu ar y penderfyniad o ran sut y bydd yr arbedion yn cael eu dyrannu ar draws y sectorau – paragraffau 7.4 a 7.5.

6. Unrhyw sylwadau pellach ynghylch y gyllideb gyfalaf arfaethedig - paragraff 8.

**Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – Cwrdd a'r Heriau 2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2016**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

## 1. *Rhagarweiniad*

1.1. Ymgynghorodd y Cygnor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith - 'Cwrdd â'r Heriau' rhwng 16 Tachwedd a 31 Rhagfyr, 2015. Roedd y cyfnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar fwy na 80 o gynigion a gyflwynwyd gan y gwasanaethau a'i herio gan aelodau. Rhannwyd yr 80 i mewn i 6 thema effeithlonrwydd fel yr amlinellir yn Strategaeth Effeithlonrwydd 2014-2017 y Cyngor, sef:

- Sicrhau bod y ffordd yr ydym yn gweithio yn darparu gwerth am arian
- Lleihau costau Rheoli, Democratiaeth a Biwrocratiaeth
- Trawsnewid y gwasanaethau mae dyletswydd gyfreithiol arnom i'w darparu; gan sicrhau eu bod yn fodern, effeithiol ac yn effeithlon
- Gweithio gydag eraill i arbed arian a chael y gorau allan o'n staff
- Cynyddu incwm ar gyfer y Cyngor
- Herio a ddylem ddarparu gwasanaethau sydd ddim yn hanfodol neu'n anstatudol; lle mae eraill hefyd yn eu darparu neu lle gall eraill eu darparu

1.2. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her fewnol wedi arwain at gynigion sy'n amrywio o ddyrannu lleoedd hysbysebu ar finiau i fusnesau lleol, i gludo gwastraff i St Helens / Runcorn i'w ailgylchu yn hytrach na anfon i safleoedd tirlenwi yn Llanddulas. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd; o'r erthyglau yn y wasg, i hyrwyddo ar y dudalen cartref o wefan y Cyngor trwy'r defnydd o Twitter, Facebook ac e-byst. Roedd pob un wedi'u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol.

1.3. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:

- Dau arolwg ar-lein ar ein gwefan
  - Arolwg ar gyfer pawb
  - Arolwg yn benodol ar gyfer yr ifanc (gweler isod)
- E-bostio neu ysgrifennu atom
- Mynychu un o'r 13 sesiwn galw heibio gyda Arweinydd y Cyngor
- Blychau awgrymiadau ar gefer staff a leolir y nein derbynfeydd

1.4. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y cyngor:

- 7 sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl o dan 25 oed ym mhob ysgol uwchradd, fforwm ffermwyr ifanc a llety digartref
- Arolwg ar-lein gynllunwyd gan Llais Ni i bobl o dan 25
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.

1.5. Roedd yr ymgynghoriad yma yn ddilyn digwyddiadau ymgynghori blaenorol a gynhaliwyd ar ddiwedd 2013 a 2014 lle cafwyd tua 1400 o ymatebion oedd eisoes wedi cael eu ystyried wrth trafod ein cynigion cyllideb blaenorol ar gyfer 2015/16.

## *2. Canlyniadau*

2.2. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 16/17 dros cyfnod o 7 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae tua 400 o ymatebion (0.6% o'r boblogaeth) wedi'i dderbyn oddi draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

2.3. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o ymgysylltu oedd y grwpiau ffocws wyneb yn wyneb a'r cyfarfodydd gyda thua 63% o'r holl ymatebwyr yn bresennol. Dilynwyd hyn gyda thua 30% yn ymateb drwy'r arolygon ar-lein a'r gweddill drwy ddulliau traddodiadol. Barnwyd bod y sesiynau galw i mewn, a gynhaliwyd ar draws yr ynys mewn 13 lleoliad gwahanol, oedd y lleiaf llwyddiannus gydag un neu ddau o'r sesiynau hefo neb yn ymgysylltu.

2.4. Y prif feysydd ffocws o'r ymatebion oedd fel a ganlyn a gellir eu dychmygu drwy ddefnyddio'r wordle isod ar lun 1:

1. Casgliadau Gwastraff Tŷ a Casglu Gwastraff Swmpus
2. Ffioedd Meysydd Parcio
3. Caffis Canolfannau Hamdden
4. Swyddi AHNE
5. Toriadau mewn Cyllido Addysg
6. Toriadau Cyllid Grant
7. Lleihad mewn Rheoli a Gweinyddu




Llun 1.

2.5. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn rhoi ystyriaeth gytbwys o'r dasg anodd sy'n wynebu'r Cyngor ac mae'r gweddill yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd:

**2.5.1. Casgliadau Gwastraff Tŷ a Casglu Gwastraff Swmpus**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn erbyn y newidiadau i gasgliadau biniau bob pythefnos. Fodd bynnag, os oes angen newid yna'r casgliad y gellid ei gwneud yw y byddai llawer mwy bodlon gyda chyfnod casgliad bob 3 wythnos yn hytrach na bob 4. Mae'r cwynion yn ymddangos i ganolbwyntio ar y ffaith bod biniau yn llawn ar ôl pythefnos sy'n golygu y byddai angen i liniaru'r newid trwy sicrhau ailgylchu ychwanegol, a hefyd y pryder y bydd cael gwared ar gasglu gwastraff swmpus am ddim yn arwain at dipio anghyfreithlon a chost ychwanegol i'r cyngor oherwydd hyn.

Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig::

*"Peidiwch a thorri casgliadau bin y tu hwnt i'r casgliad biniau bob pythefnos sy'n bodoli eisioes. Dydi fy min i ddim yn llawn fel arfer bob pythefnos, on dos rwyf yn methu casgliad oherwydd fy mod ar wyliau neu beth bynag, bydd yr egwyl o gasglu'r sbwriel yn ddwbl a nodir. Felly posib fyswn i yn mynd 8 wythnos heb gasgliad bin, sydd yn amlwg yn annerbyniol"*

*"Byddai casglu biniau du 3 wythnos yn iawn gan ddarparu teuluoedd â clytiau (phlant ifanc o dan 4 oed) yn cael eu darparu ar gyfer ... Fodd bynnag ni fyddai 4 wythnos neu bin llai yn iawn (hyd yn oed gyda biniau ychwanegol) i ni ... Byddwn hefyd yn cynnig casgliad bob 4 wythnos o finiau gwyrdd yn ystod y gaeaf gan fod y mwyafrif o'r llenwad yn bioddiraddadwy ac yn gallu aros ychydig mwy o wythnosau."*

*"O ran y cynigion ar gyfer casgliadau gwastraff bob 3 neu efallai 4 wythnos a gostyngiad posibl ym maint biniau gwastraff ... Rwy'n protestio yn y telerau cryfaf phosibl nad yw'r dull symlach hyn yn dderbyniol ac ei fod wedi ei feddwl allan yn wael iawn fel 'adwaith 'knee-jerk' 'i wella targedau gwastraff ac arbed arian ... Rwy'n argymell eich bod yn ystyried edrych ar gartrefi eu hunain, y nifer o bobl mewn cyfeiriad penodol, eu hoedran a'u hamgylchiadau ac yn y blaen."*

*"Os oes rhaid i ni newid casgliadau bin, dylem yn newid i bob 3 wythnos nid bob 4 wythnos"*

*"Byddwn yn gefnogol i casgliadau bob 3 wythnos ar yr amod bod gennym bocsys ailgylchu mwy ... Dylai'r cyngor roi'r gorau i gasgliadau bin gwyrdd o 1 Tachwedd / Rhagfyr i ddiwedd Chwefror."*

*"Na i newid casgliadau bin i bob 3 neu 4 wythnos. Mae gen i deulu mawr ac rydym yn rhedeg allan o le ar gyfer ein sbwriel hyd yn oed gyda chasgliadau biniau 2 wythnos"*

*"Yr wyf yn deall bod Ynys Môn yw'r unig gyngor i gynnig system gwastraff swmpus am ddim, ac yr wyf yn teimlo fel y dylem aros felly. Yr wyf yn gwybod cheir rhestr aros hir, ond os ydych yn addysgu pobl er mwyn iddynt wybod ein bod yn ffodus i gael y gwasanaeth am ddim, yna gallant fod yn fwy dealladwy pan ddaw i amseroedd aros."*

*"Teimlwn y dylai casgliad yn rhad ac am ddim ar gwastraff swmpus barhau er mwyn osgoi cynnydd sylweddol mewn tipio anghyfreithlon, a fyddai ynddo'i hun yn cael costau cysylltiedig"*

### 2.5.2. *Incwm Meysydd Parcio*

Roedd nifer o'r sylwadau yn negyddol ac yn ymwneud â cynyddu ffioedd parcio ceir gyda nifer yn dweud y bydd y ffioedd yn gyrru pobl oddi wrth siopa Tref neu yn effeithio ar dwristiaeth.

Gall yr ymatebion isod grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:

*"Byddwch yn cael mwy o bobl sy'n eu defnyddio os ydych yn gostwng y gost - bydd mwy o bobl yn ei ddefnyddio am 30c / awr. Mae llawer o bobl, gan gynnwys fi, cau talu am feysydd parcio. Rwy'n berchen ar siop yng Nghaergybi, swm y cwynion yr ydym yn clywed am y pris i barcio. Yn fwy tebygol o ddenu ymwelwyr i mewn i drefi drwy ei wneud yn rhatach."*

"*Rwy'n llwyr anghytuno â taliadau meysydd parcio, nhw sy'n gyfrifol am pam bod ein trefi a'n strydoedd mawr mor wag â busnesau yn brwydro i aros ar agor. Pam y byddai rhywun yn talu i barcio pryd y gallant fynd i archfarchnad ac parcio am ddim?"*

*"Mae cynyddu taliadau meysydd parcio yn wrthgynhyrchiol mewn sawl ardal, gan ei fod yn rhoi pobl i ffwrdd o siopa yn eu stryd fawr lleol ... ac yn annog pobl i barcio ar y ffyrdd yn lle, gan achosi tagfeydd ychwanegol."*

### 2.5.3. *Caffis Canolfanau Hamdden*

O'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'r rhan fwyaf naill ai'n cwestiynu'r angen am gaffi neu nodi nad oeddent yn gwerthu bwyd iach ar hyn o bryd.

T Gall yr ymatebion isod  grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:

*"Hoffwn eich bod yn ystyried mynd ymhellach nag adolygu'r bwydlenni ac oriau staffio. A oes angen i gael caffi mewn Canolfan Hamdden?"*

"Ni ddylai rhain dderbyn cymhorthdal gan y cyngor.  *Mae canolfannau hamdden mewn trefi lle mae adwerthwyr bwyd eraill felly nid yw'r caffis yn perfformio gwasanaeth hollbwysig. Gellid eu cynnig i gwmnïau preifat i redeg heb unrhyw gost i'r cyngor."*

*"Nid oes unrhyw opsiynau ffrwythau neu bwydydd iach yn y caffis, mae angen mwy o amrywiaeth."*

*"Dwi'n credu bod y bwyd yn rhy ddrud, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc"*

### 2.5.4. *Swyddi AHNE*

Mae yna cefnogaeth i gadw'r arian AHNE yn ei le gyda llawer yn datgan y gwaith da y maent yn ei wneud gyda gwirfoddolwyr wrth gadw'r AHNE lân ac yn ddefnyddiadwy.

Gall yr ymatebion isod  grynhoi'r teimladau cyffredinol tuag at y toriadau arfaethedig:

"…credwn y bydd y canlyniadau o golli swyddi hyn yn gorbwyso'r arbedion. Mae'r cynnig o dan-amcangyfrif pwysigrwydd yr AHNE i'r ynys ac yn anwybyddu'r cyfraniad gwerthfawr y gwirfoddolwyr i'w cynnal a chadw"

"Ar hyn o bryd y Swyddogion AHNE sy'n rhedeg y rhaglen Ceidwaid Ieuenctid. Mae fy merch wedi bod yn ymwneud â hyn ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ... Mae wedi rhoi cyfle iddi gyflawni nifer o weithgareddau awyr agored a rhyngweithio gyda phobl ifanc eraill, ac felly yn ennill sgiliau bywyd sylweddol"

“Byddai lleihad yn y gweithlu AHNE a cholli y gwirfoddolwyr yn effeithio ar nifer o weithgareddau ar draws yr ynys, gan gynnwys llwybrau cerdded ac gwaith cynnal a chadw ... rheoli eithin ... codi waliau cerrig sych ... adfer cynefinoedd ... a glanhau'r traeth”

“Mae eu gwaith yn amhrisiadwy wrth helpu i warchod harddwch arfordirol yr AHNE a hefyd yn annog mynediad cyhoeddus a thwristiaeth i rai o brif atyniadau yr ynys.”

**2.5.5. *Toriadau i Gyllideb Addysg***

Gwelwyd hyn fel maes pwysig o drafodaeth yn Sesiynau Galw Heibio yr Arweinydd y Cyngor gyda unigolion yn teimlo y dylai'r gyllideb addysg gael ei diogelu neu byddai effaith ar lefelau cyrhaeddiad. Cafodd hyn hefyd ei ailadrodd yn y cyfarfod traws-sector lle'r oedd cais, os digwydd gostyngiad o'r fath, gofynnwyd a ellid ei gynllunio a'i strwythuro dros nifer o flynyddoedd.

Dim ond ychydig o sylwadau yn erbyn y toriadau ddaeth i law fodd bynnag i law drwy’r arolygon a sesiynau eraill:

*“Parhau i amddiffyn y gyllideb Addysg. Dyma’r swyddogaeth fwyaf pwysig ac mae'n hanfodol ar gyfer dyfodol pob Ynys Môn "*

*"Dylid cylch-ffensio cyllideb addysg ac nid ei gyffwrdd mewn unrhyw ffordd – mae addysg ein plant mor bwysig i ddyfodol yr ynys hon ac mae ysgolion yn cael trafferth fel y mae."*

*"Mae £1m o doriad yng nghyllideb ddirprwyedig ysgolion yn swm sylweddol yn enwedig o ystyried y toriadau parhaus mewn cyllid allanol sy'n cyfrannu at ariannu ysgolion. Ar gyfer 2016/17 byddwn i yn lleihau cyllidebau dirprwyedig i’r ysgolion hynny gyda balansau sylweddol> £ 150k. "*

*"Pryder y gallai toriadau effeithio ar safonau addysg a chyrhaeddiad plant ac mae angen bod yn ymwybodol o wendidau yn y gorffennol ac i ba raddau mae'r cyngor wedi dod ymlaen ers ymyrraeth Estyn - a bod yn ymwybodol nad ydym eisiau mynd yn ôl at y sefyllfa honno”*

**2.5.6. *Toriadau cyllid Grantiau***

Cafwyd ymateb cymysg i'r cynigion i dorri y gwahanol grantiau o'r gyllideb. Roedd llawer o sylwadau yn cytuno â'r toriadau, ond bu nifer o lythyrau yn cefnogi'r gadw'r grantiau hefyd.

Roedd y sylwadau yn cynnwys:

“*Rydym wedi cael torri ein grant yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac wedi gorfod codi arian yn gyson i gadw ein grŵp ar agor. Mae swm y grant yn uniongyrchol gymharol i ansawdd yr addysg Cyfnod Sylfaen a ddarperir i'r plant yn ein gofal ... Bob tro mae y grant yn cael ei leihau, rhaid torri o'r gyllideb eitemau ... nid oes mewn gwirionedd unrhyw beth arall y gallwn ei wneud hebddo.”* Cylch Chwarae Benllech

*“Rydym yn credu y gall y Biwro weithio gyda'r Cyngor i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ond rydym yn poeni y bydd toriadau yn uniongyrchol i’n cyllid craidd yn lleihau ein gallu i reoli'r gwirfoddolwyr ac i ddenu arian grant penodol ... rydym yn awyddus i gyfrannu at ddylunio model gwasanaeth at y dyfodol (fodd bynnag), rydym yn pryderu gall y toriadau sy'n cael eu cynnig yma ddyblygu unrhyw doriadau i’n cyllid craidd a gwanhau ein gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a ddarperir ar draws yr ynys.”* Cadeirydd Cyngor ar Bopeth Ynys Môn

*“Rwy'n ymwybodol bod arian ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn debygol o gael ei leihau ac y bydd Cyngor Sir Ynys Môn, yn ddealladwy, yn edrych i wneud arbedion ariannol. Hoffwn sicrhau eich bod yn ymwybodol o rôl bwysig mae Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru yn ei chwarae wrth gyfrannu at annibyniaeth, amddiffyn, diogelwch, hyder a'r gallu i ymgymryd yn llwyddiannusa tasgau bob dydd y byddai fel arall yn amhosib i lawer o bobl â nam synhwyraidd ... Byddwn yn dymuno yn gryf i chi fod y  bartneriaeth buddiol hyn yn parhau yn 2016 ac ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.”* Dros 30 o gefnogwyr Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

*“Y Celfyddydau a grantiau addysg - bechod, ond dealladwy - dylid rhoi cefnogaeth i'w helpu i ddod o hyd i incwm o rywle arall.”*

*“Mae'n bwysig amddiffyn cyllideb Amgueddfeudd ac Diwylliant - mae'r rhain yn bwysig o ran hyrwyddo cymdeithas sy’n feddyliol-iach ac sy'n cymryd diddordeb mewn hanes a diwylliant ... gall fod yn rhesymol i ofyn bod unrhyw grant i gyrff gwirfoddol yn cyfateb 50 / 50 gan y sefydliad o'i gyllid ei hun, er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cael cymorth gwirioneddol gan y gymuned”*

*“Rwy'n cytuno â lleihau grantiau i fudiadau trydydd sector, ond dwi’n anghytuno â thoriad cyffredinol ar gyfer yr holl wasanaethau trydydd sector fel hyngan ei fod yn eu rhoi o dan anfantais gystadleuol wrth gystadlu gyda'r sector breifat.”*

**2.5.7. *Gostyngiad mewn Rheoli a Gweinyddu***

Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cytuno â'r angen i dorri swyddi rheoli a gweinyddu gyda rhai yn gofyn am fwy o doriadau, roedd yn amlwg bod pobl o dan 25 yn teimlo'n bryderus am golli swyddi.

Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys:

*“Anghytuno (gyda'r toriadau) bydd y gwasanaeth ddim mor effeithiol”*

*“Bydd pobl yn ei chael yn anodd dod o hyd i swyddi ac yn dod yn ddi-waith”*

*“A wnewch chi ddod o hyd i waith arall ar gyfer pobl sy'n colli swyddi?”*

*“Mae rhai gwasanaethau o fewn y cyngor gyda rheolwyr sydd ond yn rheoli / yn gyfrifol am un neu ddau o staff. Gellid gwneud arbedion drwy gael y Pennaeth Gwasanaeth ac un rheolwr dros fwy o staff.”*

*“Symleiddio rheolaeth ganol - ni ddylai unedau sy'n llai na 5 aelod gael goruchwyliaeth reolaethol cost uchel yn ogystal â phennaeth gwasanaeth. Mae gormod o ddyblygu rheolwyr ar draws yr awdurdod gyda rhai adrannau efo un neu ddau aelod o staff dan arweiniad rheolwr, lle efallai'r hyn sydd ei angen yw goruchwyliaeth syml.”*

*“Dylai'r cyngor edrych ar leihau rôl rheoli sydd ond yn rheoli hyd at dri o bobl. Dylai'r rhain fod yn rolau goruchwylio.”*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **1 Chwefror, 2016** |
| **Pwnc:** | **Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd (2015/16) – ADRODDIAD TERFYNOL** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Ddim yn Berthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ddim yn Berthnasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dan ofal: Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn Berthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**1. CEFNDIR**

1.1 Tra'n ystyried adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd (2014/15), bu i'r Pwyllgor Gwaith[1] benderfynu y dylai panel o aelodau barhau i fonitro'r arbedion a gyflwynwyd gan yr adrannau i'r flwyddyn gyfredol drwy fonitro cyllideb 2015/16 yn chwarterol;

1.2 Y bu oedi cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gyfarfod am y tro cyntaf a chafodd absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd effaith ar yr amserlen a'r cynnydd gyda'r ffrwd gwaith hon. Dechreuodd y Panel ar ei waith ddechrau mis Medi, 2015.

**2. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION**

**2.1 Methodoleg** – 'roedd yr adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[2] ac yn cynnwys datblygu cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau methodoleg Rheoli Prosiect[3] er mwyn sicrhau cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cynhaliwyd 8 o gyfarfodydd o'r Panel dros gyfnod o 4 mis (rhwng Medi, 2015 a mis Ionawr, 2016);

**2.2 Mewnbynnau:** cafwyd mewnbynnau gan y swyddogion isod yn ystod yr adolygiad:

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion;

[1] Y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2015
[2] Y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau
[3] PRINCE2

- Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Prif Swyddog Rheoli Gwastraff;
- Prif Beiriannydd – Traffig a Thrafnidaeth;
- Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd);
- Rheolydd Cynllunio Adeiladau a'r Amgylchedd Naturiol.

**2.3 Sgôp ac Amcanion:** ar y cychwyn, ystyriwyd dau opsiwn posibl ynghylch yr union bethau y dyali'r Panel ganolbwyntio arnynt. 'Roedd yr opsiwn cyntaf yn cynnwys archwilio ymhellach i gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei arbedion ar gyfer 2015/16 ac 'roedd yr ail opsiwn yn ymwneud ag archwilio i effaith y strategaeth effeithlonrwydd ar gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau. Dewiswyd yr opsiwn cyntaf. Mae'r Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel yn manylu ar yr amcanion, sgôp a'r canlyniadau a ddeisyfwyd o'r Adolygiad (**ATODIAD 1**).

**2.4 Aelodaeth y Panel:**
- Cyng R Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws a T Victor Hughes;
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Bethan Hughes Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

**2.5 Sylwadau Ychwanegol gan y Panel:** wrth adlewyrchu'n ôl ar y gwaith, nododd Aelodau'r Panel rai sylwadau ychwanegol:
- I wersi gael eu dysgu ar drefniadau gwaith y paneli sgriwtini gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf i sefydlu arferion gweithio a fformat adroddiadau newydd;
- Bu i'r Panel hwn gwblhau darn sylweddol o waith craffu yn ystod 2014/15 o dan amgylchiadau heriol (ychydig o wybodaeth ar gael i gefnogi targedau effeithlonrwydd, absenoldeb trefniadau cadarn ar gyfer rheoli prosiect ac asesiadau risg);
- Croesawyd y broses newydd a gyflwynwyd i gefnogi'r gwaith o orffen adroddiadau paneli sgriwtini oedd nawr yn cynnwys aliniad cryfach gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

**3. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION Y PANEL**

Daeth y Panel i 5 prif gasgliad:

**3.1 CASGLIAD 1:** 'Roedd mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid sy'n cefnogi gweithrediad rhaglen effeithlonrwydd yr Awdurdod;

**3.2 CASGLIAD 2:** 'Roedd canran sylweddol o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau effeithlonrwydd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn;

**3.3 CASGLIAD 3:** 'Roedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cael eu cyflawni'n cyd-fynd â'r rhagamcanion ac eithrio 8 o'r ffrydiau gwaith;

**3.4 CASGLIAD 4:** 'Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu'n parhau i fod angen sylw, yn codi'n bennaf o'r broses Arfarnu Swyddi a oedd wedi effeithio ar 3 o'r ffrydiau gwaith effeithlonrwydd gan arwain at lithriad a rhagwelwyd na fyddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn;

**3.5 CASGLIAD 5:** Dylai'r model a'r dull sgriwtini mewn perthynas â materion cyllidebol newid i'r dyfodol.

**Mae'r Adroddiad Terfynol ynghlwm (ATODIAD 1) yn manylu ar ystyriaethau a sylwadau'r Panel ynghyd â'r 7 argymhelliad unigol a gytunwyd gan y Panel.**

**4. AMSERLEN AR GYFER Y CERRIG MILLTIR YN WEDDILL I'R BROSES**

| DYDDAIAD | CARREG FILLTIR |
|---|---|
| 08/02/16 | **Pwyllgor Gwaith –** derbyn yr Adroddiad Terfynol gydag argymhelliad i gymeradwyo'r 5 prif gasgliad a'r 7 argymhelliad unigol. |
| Cyn diwedd Chwefror, 2016 | **Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol** – ar safle we'r Cyngor. |

**5. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (rhiant bwyllgor):

**5.1 Gymeradwyo'r Adroddiad Terfynol ynghyd â'i 5 prif gasgliad a'r 7 argymhelliad unigol;**

**5.2 Gytuno i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol er cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror, 2016.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ddim yn Berthnasol.

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini fel y cynhwysir hwy yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

**CH – A ydy'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy.

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Dim yn hysbys. |

| DD – Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(gorfodol) | Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 13/01/16 a chyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:<br>i. Derbyn cynnwys yr adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini;<br>ii. **CASGLIAD 1**: nodi'r ffaith fod mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid. Adolygu'r arbedion posibl y gellir eu sicrhau drwy'r Strategaeth Gaffael (**A1.1**) a monitro'n barhaus y modd y cyflawnir arbedion effeithlonrwydd y Cyngor yn y dyfodol (**A1.2**) i dderbyn sylw fel rhan o raglenni gwaith yr UDA;<br>iii. **CASGLIAD 2**: sicrhau y parheir i fonitro'n gadarn ac yn barhaus y ffrydiau gwaith effeithlonrwydd hyd at ddiwedd y flwyddyn i dderbyn sylw fel rhan o raglenni gwaith yr UDA;<br>iv. **CASGLIAD 3**: cydnabod yr angen am her cadarn i gynigion effeithlonrwydd a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad sy'n sail i gynigion effeithlonrwydd sylweddol a thrawsnewidiol yn ddigon cadarn;<br>v. **CASGLIAD 4**: cydnabyddir yr angen i sicrhau bod materion gweithlu gyda ffrydiau gwaith effeithlonrwydd yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cael sylw amserol;<br>vi. **CASGLIAD 5**: cefnogi Aelodau wrth ail-siapio mewnbwn Sgriwtini ar faterion cyllidebol; |
| 2 | **Cyllid / Adain 151**<br>(gorfodol) | Cyfranodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog A151 a'r Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg fel aelodau craidd y Panel ac ymgynghorwyd â hwy ar gynnwys yr adroddiad drafft. Adlewyrchwyd eu sylwadau yn yr Adroddiad Terfynol. |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(gorfodol) | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) ar gynnwys yr adroddiad drafft ac adlewyrchwyd ei sylwadau yn yr Adroddiad Terfynol. |
| **5** | **Eiddo** | Cyfranodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) at waith y Panel ac ymgynghorwyd ag ef ar gynnwys yr adroddiad drafft. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Tra'n ystyried Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd (2014/15), bu i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20/04/15 benderfynu y dylai panel o aelodau barhau i fonitro'r arbedion a gyflwynwyd gan yr adrannau i'r flwyddyn gyfredol drwy fonitro cyllideb 2015/16 yn chwarterol. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn Berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | Ddim yn Berthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn Berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn Berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn Berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn Berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldeb** | Ddim yn Berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn Berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn Berthnasol |

| **F – Atodiadau:** |
|---|
| Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – Adroddiad Terfynol. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini d/o Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/16

## ADRODDIAD TERFYNOL

Uned Sgriwtini Gorfforaethol

Rhagfyr, 2015

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r canlynol sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod yr adolygiad hwn. Gwelwyd eu ymgysylltu, cyfranogiad a chyfraniadau llawn yn hwyluso'r dasg dan sylw ac o ganlyniad yn ei gwneud yn bosibl i'r Panel gwblhau'r gwerthusiad oddi mewn i'r amserlen. Hoffem hefyd gydnabod y ffaith i ni gael mynediad pen agored i'r holl ffynonellau data, llenyddiaeth a dogfennau perthnasol ac o ganlyniad yn galluogi adolygiad llawn a chynhwysfawr o elfennau allweddol prosesau a gweithdrefnau rheoli cyllidebau'n gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau unigol:

- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Bethan Hughes Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151 Dros Dro;
- Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion;
- Dewi R Williams, Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Meirion P Edwards, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff;
- Dewi W Roberts, Prif Beiriannydd – Traffig a Thrafnidiaeth;
- Jim Woodcock, Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd);
- Dave A Riley, Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd;
- Glyn E Jones, Rheolydd Cynllunio Adeiladau a'r Amgylchedd Naturiol.

## Pam mae hyn yn bwysig?



Cynghorydd R Meirion Jones

# Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

Nid oes gwerth mewn rhestru arbedion effeithlonrwydd mewn Cyllideb os nad ydyw'r arbedion effeithlonrwydd hynny yn cael eu gwireddu.

Ar 20 Ebrill 2015, cyflwynwyd Adroddiad Panel Canlyniad Sgriwtini : Arbedion Effeithlonrwydd 2014/15 i'r Pwyllgor Gwaith a phenderfynwyd derbyn yr argymhellion i gynnwys cael Sgriwtini i barhau monitro'r Gyllideb ac yn arbennig yr Arbedion Effeithlonrwydd.

Yn y Cynllun Corfforaethol 2013 – 2017, mae'r Cyngor yn datgan o dan y penawd "Ein Nôd ar gyfer 2017":

"Nôd Cyngor  Sir Ynys Môn erbyn 2017 yw y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion....."

Fel pob awdurdod lleol arall, bydd pwysau mawr ar gyllidebau Ynys Môn a rhaid i'r awdurdod ganolbwyntio ar ddod o hyd i fwy o arbedion.  Yn anorfod, bydd hyn yn golygu newidiadau o ran gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r modd yr ydym yn eu darparu. Bydd y Cyngor felly, yn gweithio gyda'n dinasyddion i newid y ffordd yr ydym i gyd yn meddwl am gyfrifoldebau priodol y Cyngor, cymunedau ac unigolion…."

Mae Adroddiad Blynyddol Sgriwtini, Mai 2015, yn cyfeirio at Adroddiad Williams a'r gofyn am "gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau . . . ." Gwna Adroddiad Williams nifer o ddatganiadau cefnogol i'r drefn craffu gan gynnwys "Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol."  Gobeithio bod ein gwaith yn y mater drwy yr adroddiad hwn yn cyfrannu at y "gwerth gwaith", "gwelliannau" a'r "arbedion" hynny.

Credaf ein bod fel Awdurdod yn symud ymlaen ac mae gwaith llynedd yn sylfaen dda i'n gwaith cyfredol.  Bu gwaith y Panel ym 2014/15 yn dra wahanol i waith y Panel eleni ac mae'r drefn wedi aeddfedu erbyn hyn.  'Rydym wedi elwa o'r gwaith blaenorol ac mae arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyflawni ac mae'r monitro yn cael ei effaith gadarnhaol. Felly, hoffwn gyflwyno'r adroddiad hwn.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Aelodau'r Panel am eu cyfraniadau mewn amser ac ymroddiad a syniadau, ac i Swyddog y Panel am ei gwaith trylwyr ac amserol, ac i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Panel a chynnwys yr adroddiad hwn.

# Mynegai o'r Cynnwys

Diolchiadau
Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

Tudalen / *Page*

1. **Crynodeb Gweithredol** **5**

**ADRODDIAD LLAWN Y PANEL**

2. **Cefndir** **8**
3. **Methodoleg, Sgôp ac Amcanion** **8**
4. **Casgliadau** **10**
5. **Argymhellion** **13**
6. **Llyfryddiaeth** **14**

**ATODIAD**

Cylch Gorchwyl: Panel Canlyniad Sgriwtini **ATODIAD 1**

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 **Amcanion a Sgôp yr Adolygiad**

Edrych mewn mwy o fanylder ar gynnydd yr Awdurdod wrth gyflawni ar ei strategaethau/dargedau effeithlonrwydd ar gyfer 2015/16 gan osod y cwestiynau allweddol a ganlyn:

i. A lwyddwyd i wneud yr arbedion effeithlonrwydd?
ii. A lwyddwyd i wneud yr arbedion o fewn yr amserlen?
iii. A oedd trefniadau rheoli prosiect cadarn mewn lle?
iv. Pa drefniadau gafodd eu sefydlu i reoli'r risgiau'n gysylltiedig â'r Strategaeth Effeithlonrwydd?
v. Beth oedd y risgiau cyfredol ar y pryd o ran cyrraedd ein targedau effeithlonrwydd?
vi. I ba raddau oedd yr arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol yn cael eu cyflawni yn hytrach na defnyddio ffynonellau eraill o arbedion i gyflawni targedau Gwasanaethau?
vii. A oedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cyd-fynd â'r rhagamcanion?
viii. A oedd yna unrhyw faterion gweithlu'n codi yr oedd angen eu cymryd i ystyriaeth?

1.2 **Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau a ystyriwyd**

Cafodd yr adolygiad ei strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[1]. 'Roedd hyn yn cynnwys cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r methodoleg Rheoli Prosiect[2] er mwyn sicrhau cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cafwyd 8 o gyfarfod y Panel dros gyfnod o 4 mis (rhwng Medi, 2015 a mis Ionawr, 2016).

1.3 **Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini**

- Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Llinos Medi Huws;
- Cynghorydd T Victor Hughes.
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adain 151 Dros Dro (hyd at 28/09/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adain 151 (o 14/10/15);
- Bethan Hughes Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro.

1.4 **Casgliadau**

**CASGLIAD 1:** 'Roedd mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid sy'n cefnogi gweithrediad rhaglen effeithlonrwydd yr Awdurdod.

**CASGLIAD 2**: 'Roedd canran sylweddol o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau effeithlonrwydd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**CASGLIAD 3**: 'Roedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cael eu cyflawni'n cyd-fynd â'r rhagamcanion ac eithrio 8 o'r ffrydiau gwaith.

[1] Manylion yn y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau
[2] PRINCE2

**CASGLIAD 4:** 'Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu'n parhau i fod angen sylw, yn codi'n bennaf o'r broses Arfarnu Swyddi a oedd wedi effeithio ar 3 o'r ffrydiau gwaith effeithlonrwydd gan arwain at lithriad a rhagwelwyd na fyddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. .

**CASGLIAD 5**: Dylai'r model a'r dull sgriwtini mewn perthynas â materion cyllidebol newid i'r dyfodol. .

1.5 **Argymhellion**

Mae'r Panel yn argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:

**1.'Roedd mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid sy'n cefnogi gweithrediad rhaglen effeithlonrwydd yr Awdurdod**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **1.1** | Dylai'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth barhau i adolygu'r arbedion posibl y gellir eu sicrhau drwy'r Strategaeth Gaffael. |
| **1.2** | Dylai'r gwaith o fonitro'n barhaus y modd y cyflawnir arbedion effeithlonrwydd y Cyngor yn y dyfodol fod yn fater i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth (cyfeirir hefyd at Argymhelliad 5.1). |

**2. 'Roedd canran sylweddol o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau effeithlonrwydd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **2.1** | Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau y parheir i fonitro'n gadarn ac yn barhaus y ffrydiau gwaith effeithlonrwydd hyd at ddiwedd y flwyddyn gan roi blaenoriaeth yn arbennig i'r rhai a fydd, yn ôl y rhagolygon presennol, yn tangyflawni. |

**3. 'Roedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cael eu cyflawni'n cyd-fynd â'r rhagamcanion ac eithrio 8 o'r ffrydiau gwaith.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **3.1** | I'r dyfodol, sicrhau bod cynigion effeithlonrwydd yn cael eu herio'n gadarn cyn cael eu cymeradwyo gan Aelodau Etholedig – yn enwedig mewn perthynas â chynigion i drawsnewid. |
| **3.2** | Sicrhau bod trefniadau rheoli prosiect sy'n sail i gynigion effeithlonrwydd sylweddol a thrawsnewidiol yn ddigon cadarn. |

**4. 'Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu'n parhau i fod angen sylw, yn codi'n bennaf o'r broses Arfarnu Swyddi a oedd wedi effeithio ar 3 o'r ffrydiau gwaith effeithlonrwydd gan arwain at lithriad a rhagwelwyd na fyddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **4.1** | I'r dyfodol, sicrhau bod unrhyw faterion gweithlu sy'n gysylltiedig â ffrydiau gwaith effeithlonrwydd yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cael sylw amserol fel y gellir cyflawni ffrydiau gwaith yn unol ag amserlenni penodol. |

**5. Dylai'r model a'r dull sgriwtini mewn perthynas â materion cyllidebol newid i'r dyfodol.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **5.1** | Ail-siapio'r mewnbwn Sgriwtini i faterion cyllidebol er mwyn:<br>• Archwilio'r broses o osod cyllideb y flwyddyn ariannol ddilynol (yn hytrach na gwneud hynny'n ôl-weithredol) a darparu tystiolaeth o werth ychwanegol drwy graffu cyn gwneud penderfyniad;<br>• Sicrhau aliniad gwell rhwng y broses o osod cyllideb, y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, trawsnewid gwasanaethau a chyfraniad Sgriwtini;<br>• Canolbwyntio ar weledigaeth y gwasanaethau at y dyfodol a'r effaith ar gyllideb y flwyddyn ddilynol (o fewn cylch 3 blynedd);<br>• Cryfhau ymhellach y broses o fonitro'r gyllideb yn chwarterol er mwyn cynnwys adnabod arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol. |

# ADRODDIAD LLAWN Y PANEL

## 2. CEFNDIR

2.1 Tra'n ystyried adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithlonrwydd (2014/15), bu i'r Pwyllgor Gwaith[3] benderfynu y dylai panel o aelodau barhau i fonitro'r arbedion a gyflwynwyd gan yr adrannau i'r flwyddyn gyfredol drwy fonitro cyllideb 2015/16 yn chwarterol;

2.2 Y bu oedi cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gyfarfod am y tro cyntaf a chafodd absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd effaith ar yr amserlen a'r cynnydd gyda'r ffrwd gwaith hon. Dechreuodd y Panel ar ei waith ddechrau mis Medi, 2015;

2.3 'Roedd y Panel yn ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau y mae cynghorau'n eu darparu ac y câi'r heriau ariannol sy'n wynebu cynghorau effaith pellgyrhaeddol – a hynny o ran y gwasanaethau a dderbynnir a'r trethi a'r ffioedd a delir[4]. 'Roedd angen i Gynghorau feddwl yn galed am y dewisiadau yr oeddynt yn eu hwynebu a gofyn cwestiynau anodd ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig yn y dyfodol ac a yw dulliau hanesyddol o ddarparu gwasanaethau'n parhau i fod yn briodol;

2.4 Wrth ystyried sut y byddai cyllidebau Gwasanaethau unigol yn cael eu cytuno cyn cychwyn y flwyddyn ariannol newydd, canfuwyd bod yr holl benderfyniadau yr oedd yr Aelodau wedi'u gwneud ar arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu gweithredu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol bresennol – gyda chyllidebau wedi'u gostwng i adlewyrchu'r arbedion gwirioneddol a gymeradwywyd. 'Roedd yr egwyddor sylfaenol yn un o lywodraethu da a thryloywder.

## 3. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION

3.1 **Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini**

- Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Llinos Medi Huws;
- Cynghorydd T Victor Hughes.
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro (hyd at 28/09/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 (o 14/10/15);
- Bethan Hughes Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Corfforaethol Dros Dro.

3.2 **Amcanion a Sgôp yr Adolygiad**

Ar y cychwyn, ystyriwyd dau opsiwn posibl ynghylch yr union bethau y dylai'r Panel ganolbwyntio arnynt. 'Roedd yr opsiwn cyntaf yn cynnwys archwilio ymhellach i gynnydd yr Awdurdod o ran cyflawni ei arbedion ar gyfer 2015/16 ac 'roedd yr ail opsiwn yn ymwneud ag ymchwilio i effaith y stratagaeth effeithlonrwydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau. Dewiswyd yr opsiwn cyntaf. Mae'r Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel yn manylu ar yr amcanion, sgôp a'r canlyniadau a ddeisyfwyd o'r Adolygiad (**ATODIAD 1**).

[3] Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2015
[4] *Raising the Stakes: financial scrutiny in challenging times: A guide for Welsh local authorities* (Y Ganolfan Graffu Gyhoeddus, Mehefin, 2014)

### 3.3 Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau a ystyriwyd

3.3.1 **Methodoleg/Tystiolaeth** : 'roedd yr Adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[5]. 'Roedd hyn yn cynnwys cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau o fethodoleg Rheoli Prosiect[6] er mwyn sicrhau cadernid i strwythur yr adolygiad. Cynhaliwyd 8 o gyfarfodydd o'r Panel dros gyfnod o 4 mis (rhwng Medi, 2015 a mis Ionawr, 2016) – yn gweithio i'r Atodlen canlynol:

**RHAGLEN WAITH: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI [ARBEDION]**

| CYFARFOD | MATERION RHODDWYD SYLW IDDYNT | TYSTIOLAETH I LAW |
|---|---|---|
| **1** | Cylch gorchwyl, cynllun prosiect a gosod y cyd-destun; ystyried manylion a fformat yr wybodaeth yr oedd hangen ar y Panel. Cytuno'r anghenion data/ gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 2 | Enghraifft o daenlen yn crynhoi manylder a fformat yr wybodaeth ariannol |
| **2** | Ystyriaeth fanwl o arbedion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) a'r Gwasanaeth Tai. Cytuno'r anghenion data/ gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 3 | Taenlen: arbedion Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai |
| **3** | Ystyriaeth fanwl o arbedion effeithlonrwydd Datblygu Cynaliadwy. Cytuno'r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 4 | Taenlen: arbedion Datblygu Cynaliadwy |
| **4** | Gorffen archwilio arbedion y Gwasanaethau Cymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy. Cytuno'r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 5 | Taenlenni: arbedion y Gwasanaethau Cymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy |
| **5** | Gorffen archwilio arbedion Priffyrdd a Gwastraff. Ystyriaeth fanwl o arbedion Dysgu Gydol Oes. Cytuno'r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 6 | Taenlenni: arbedion Datblygu Cynaliadwy a Dysgu Gydol Oes |
| **6** | Gorffen archwilio arbedion Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Ystyriaeth fanwl o arbedion y Gwasanaethau Corfforaethol/Cefn Swyddfa, gorffen archwilio arbedion 2015/16 a chytuno'r casgliadau cychwynnol | Taenlenni: arbedion Datblygu Cynaliadwy a Gwasanaethau Corfforaethol/Cefn Swyddfa; crynodebau o drafodaethau'r Panel hyd yma |
| **7** | Ystyried yr holl ffrydiau gwaith arbedion yn eu cyfanrwydd, dod i gasgliadau a chytuno argymhellion | Dim yn berthnasol |
| **8** | Cytuno ar adroddiad y Panel. | Dim yn berthnasol |

Mae'r holl ddogfennau a wnaed adolygiad pen bwrdd ohonynt wedi'u rhestru yn Adran 6.

Cafwyd trafodaeth ar y cyd hefyd gyda swyddogion o rai gwasanaethau yng Nghyfarfodydd 4, 5 a 6 er mwyn galluogi'r Panel i lunio barn a dod i gasgliad ar y tebygolrwydd y byddai modd cyflawni rhai arbedion effeithlonrwydd yn llawn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol:

I. Gwasanaethau Oedolion;
II. Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Eiddo;
III. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

Datblygwyd matrics drwy gydol y broses adolygu i grynhoi sylwadau ac argymhellion.

[5] Y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau.
[6] PRINCE2

3.3.2 **Mewnbynnau**: cafwyd mewnbynnau gan y swyddogion canlynol yn ystod yr adolygiad:

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion;
- Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo);
- Prif Swyddog Rheoli Gwastraff;
- Prif Beiriannydd – Traffig a Thrafnidiaeth;
- Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd);
- Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd;
- Rheolydd Cynllunio Adeiladau a'r Amgylchedd Naturiol.

3.3.3 **Maincnodi/Barn Annibynnol**: nid oedd maincnodi'n rhan o sgôp y Panel Canlyniad Sgriwtini hwn.

# 4. CASGLIADAU

Yn ystod Cyfarfodydd 2 i 6, rhoes y Panel sylw i'r ffrydiau gwaith a oedd yn ffurfio rhan o strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015/16 (cyfanswm o 95 o arbedion unigol) wedi'u hategu gan yr ystyriaethau canlynol:

i. Asesu i ba raddau 'roedd yr arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu gwireddu;
ii. Dod i farn yngylch y tebygolrwydd y byddai'r arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyflawni'n unol â'r amserlen;
iii. Asesu effeithiolrwydd unrhyw drefniadau rheoli prosiect a rheoli risg a oedd ar waith;
iv. Canfod i ba raddau yr oedd y ffrydiau gwaith gwirioneddol i sicrhau arbedion fel y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni yn hytrach na defnyddio ffynonellau ariannu eraill i gwrdd â thargedau'r Gwasanaethau;
v. Mesur a oedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cyd-fynd â'r rhagamcanion;
vi. Nodi unrhyw faterion gweithlu a oedd yn parhau i fod angen sylw ac yr oedd angen eu cymryd i ystyriaeth.

CASGLIAD 1**: 'roedd mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid sy'n cefnogi gweithrediad rhaglen effeithlonrwydd yr Awdurdod**

Sylwadau'r Panel

- 'Roedd mwy o hyder bod systemau wedi cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod gwybodaeth gadarnach, cynigion effeithlonrwydd wedi'u costio ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar gael;
- Cyfeiriodd y Panel at yr angen i ystyried unrhyw sgôp ar gyfer ailddylunio ymhellach gyllidebau ar draws rhai meysydd o swyddogaethau / gwariant yr Awdurdod – trwy ganoli prynu nwyddau neu wasanaethau penodol er mwyn sicrhau gwell gwerth a chyflwyno lefel o sgriwtini yng nghyswllt y nwyddau a'r gwasanaethau a gaiff eu prynu. Cawsai canoli cyllidebau deunydd ysgrifennu ac ynni eu nodi fel enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni aeth y Panel ar drywydd y thema hon ond yn fater i'w gyfeirio at y Pwyllgor Gwaith er ystyriaeth bellach;
- Ystyriwyd y rhaglen waith barhaus, flynyddol yn gysylltiedig â strategaeth arbedion y Cyngor a daethpwyd i'r casgliad mai mater ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth fyddai ei monitro yn y dyfodol.

CASGLIAD 2: **'Roedd canran sylweddol o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau effeithlonrwydd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn**

Sylwadau'r Panel:

- Ystyriodd y Panel y 95 o ffrydiau gwaith effeithlonrwydd ar gyfer 2015/16, a oedd gyda chyfanswm o £3,762,700. Yng ngoleuni ei drafodaethau, crynhodd y Panel y sefyllfa gyffredinol ar gyflawni arbedion effeithlonrwydd yr Awdurdod fel a ganlyn:

  **Y SEFYLLFA FEL YR OEDD YM MIS TACHWEDD, 2015:**
  80 o ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gyflawni arbedion – sef cyfanswm o £3,220,700 [**86%**]
  Nid oedd modd darogan hynt 2 o ffrydiau gwaith (cyllidebau anwadal yn seiliedig ar anghenion) – cyfanswm o £89k [**3%**]
  13 o ffrydiau gwaith effeithlonrwydd wedi llithro – cyfanswm o £453k. Disgwylid y byddai £75k o'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn cael eu cyflawni ynghyd â £50k ychwanegol[7] - cyfanswm felly o £125k.

  'Roedd hyn yn gadael diffyg amcanol o £328k [**11%**] o ran cyflawni ffrydiau gwaith effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015/16.

CASGLIAD 3: '**Roedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cael eu cyflawni'n cyd-fynd â'r rhagamcanion ac eithrio 8 o'r ffrydiau gwaith**

Sylwadau'r Panel:

- 'Roedd tystiolaeth i awgrymu y bu sail i her ar gyfer cynigion effeithlonrwydd cyn i'r Cyngor gymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2015/16 gan fod y data / gwybodaeth ategol ar gyfer pob cynnig effeithlonrwydd wedi cael ei archwilio gan gydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyllid cyn eu cymeradwyo gan Aelodau Etholedig;
- Nid oedd angen defnyddio trefniadau rheoli prosiect ond ar gyfer un arbediad – sef lleoliadau Garreglwyd. Crynhodd y Panel fod yna arbedion effeithlonrwydd eraill, naill ai'n drawsnewidiol eu natur neu â thargedau effeithlonrwydd sylweddol, a allai fod wedi elwa o ddull rheoli prosiect. Yr enghreifftiau a nodwyd oedd cynigion Rheoli Gwastraff a Dysgu Gydol Oes;
- O'r 13 o arbedion effeithlonrwydd lle rhagwelwyd y byddent yn tangyflawni, daeth y Panel i'r casgliad y byddai 8 o'r ffrydiau gwaith hyn yn methu â darparu unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Cyfanswm y 8 ffrwd gwaith hyn oedd £416k:

[7] Rhagwelwyd y byddai ffrwd gwaith rhesymoli'r UDA yn cyflawni mwy na'r arbediad gwreiddiol o £50k yn ystod 2015/16

| GWASANAETH | FFRWD WAITH | £ | RHESWM DROS Y METHIANT I GYFLAWNI YM 15/16* |
|---|---|---|---|
| I. OEDOLION | Gofal Ychwanegol Môn<br>Lleoliadau Garreglwyd | **10k**<br>**70k** | **3**<br>**1, 2 a 3** |
| II. CYNLLUNIO | Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | **10k** | **2** |
| III. ADDYSG | Cludiant Ôl-16<br>Clybiau Brecwast<br>Cynyddu rhent tai gofalwyr ysgol<br>Cynnal | **50k**<br>**171.4k**<br>**4k**<br>**36k** | **3**<br>**3**<br>**3**<br>**3** |
| IV. CYLLID | Ymarferion tendro | **65k** | **3** |
| **CYFANSWM** | | **416.4k** | |

* Rhesymau am fethu â chyflawni:
**Categori 1:** methodd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor
**Categori 2:** diffygion mewn prosesau mewnol
**Categori 3:** nid oedd y broses herio gychwynnol[8] yn ddigon cadarn ac arweiniodd hynny at gyflwyno prosiectau anymarferol fel cynigion arbedion ar gyfer 2015/16

CASGLIAD 4: **'Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu'n parhau i fod angen sylw, yn codi'n bennaf o'r broses Arfarnu Swyddi a oedd wedi effeithio ar 3 o'r ffrydiau gwaith effeithlonrwydd gan arwain at lithriad a rhagwelwyd na fyddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn**

Sylwadau'r Panel:

- 'Roedd materion gweithlu a oedd yn parhau i fod angen sylw mewn perthynas â 3 o ffrydiau gwaith effeithlonrwydd:
    i. Cynyddu'r rhent ar gyfer tai gofalwyr ysgolion (Gwasanaeth Addysg);
    ii. Newidiadau i arferion gwaith yn CAGD[9] (Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff);
    iii. Ailstrwythuro trefniadau Rheoli ym Mhenhesgyn (Gwasanaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff).

Mae'r materion hyn mewn perthynas â'r gweithlu wedi llesteirio cynnydd gan arwain at ddiffyg cyflawniad yn y ffrydiau gwaith Rheoli Gwastraff (£59k) gyda'r Gwasanaeth Addysg yn methu â chyflawni yn erbyn targed ei ffrwd gwaith effeithlonrwydd (£4k).

CASGLIAD 5: **Dylai'r model a'r dull sgriwtini mewn perthynas â materion cyllidebol newid i'r dyfodol**

Sylwadau'r Panel:

- 'Roedd manteision i edrych ar siâp a ffurf y broses sgriwtini i'r dyfodol er mwyn sicrhau ffocws ar y flwyddyn sydd i ddod yn hytrach nag edrych yn ôl ar gynnydd. 'Roedd y Panel â barn glir fod angen sicrhau aliniad gwell rhwng y broses o bennu'r gyllideb, y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol (Adolygiadau Gwasanaeth), gwaith y byrddau trawsnewid a'r cyfraniad gan Sgriwtini. Nodwyd bod angen i gyfraniad sgriwtini yn y dyfodol ganolbwyntio ar weledigaeth gwasanaethau ar gyfer y dyfodol ac effaith hynny ar gyllideb y flwyddyn ganlynol;

[8] Mae'r broses herio gychwynnol yn cyfeirio at drafodaethau ac her o'r cynigion effeithlonrwydd gan swyddogion Cyllid, yn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith
[9] Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig

- Cynigiodd y Panel nifer o egwyddorion o ran ail-siapio cyfraniad y Pwyllgor Sgriwtini:
    i. Cylch integredig tair blynedd yn gysylltiedig ag arbedion trawsnewid;
    ii. Cyfraniad amserol, cynhwysol gan Sgriwtini i'r broses o osod y gyllideb – gan gynnwys adnabod arbedion effeithlonrwydd posibl;
    iii. Adeiladu ar y trefniadau presennol lle mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn monitro cyllidebau refeniw yn chwarterol er mwyn cryfhau ymhellach y rôl Sgriwtini o ran herio arbedion effeithlonrwydd y dyfodol.

# 5. ARGYMHELLION

Cyflwyno'r argymhellion canlynol er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith:

**1.'Roedd mwy o hyder yng nghadernid y systemau ac arferion gwaith cyllid sy'n cefnogi gweithrediad rhaglen effeithlonrwydd yr Awdurdod**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 1.1 | Dylai'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth barhau i adolygu'r arbedion posibl y gellir eu sicrhau drwy'r Strategaeth Gaffael. |
| 1.2 | Dylai'r gwaith o fonitro'n barhaus y modd y cyflawnir arbedion effeithlonrwydd y Cyngor yn y dyfodol fod yn fater i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth (cyfeirir hefyd at Argymhelliad 5.1). |

**2. 'Roedd canran sylweddol o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau effeithlonrwydd yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 2.1 | Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau y parheir i fonitro'n gadarn ac yn barhaus y ffrydiau gwaith effeithlonrwydd hyd at ddiwedd y flwyddyn gan roi blaenoriaeth yn arbennig i'r rhai a fydd, yn ôl y rhagolygon presennol, yn tangyflawni. |

**3. 'Roedd lefelau gwirioneddol yr arbedion yn cael eu cyflawni'n cyd-fynd â'r rhagamcanion ac eithrio 8 o'r ffrydiau gwaith.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 3.1 | I'r dyfodol, sicrhau bod cynigion effeithlonrwydd yn cael eu herio'n gadarn cyn cael eu cymeradwyo gan Aelodau Etholedig – yn enwedig mewn perthynas â chynigion i drawsnewid. |
| 3.2 | Sicrhau bod trefniadau rheoli prosiect sy'n sail i gynigion effeithlonrwydd sylweddol a thrawsnewidiol yn ddigon cadarn. |

**4. 'Roedd materion yn ymwneud â'r gweithlu'n parhau i fod angen sylw, yn codi'n bennaf o'r broses Arfarnu Swyddi a oedd wedi effeithio ar 3 o'r ffrydiau gwaith effeithlonrwydd gan arwain at lithriad a rhagwelwyd na fyddant wedi cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| 4.1 | I'r dyfodol, sicrhau bod unrhyw faterion gweithlu sy'n gysylltiedig â ffrydiau gwaith effeithlonrwydd yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cael sylw amserol fel y gellir cyflawni ffrydiau gwaith yn unol ag amserlenni penodol. |

**5. Dylai'r model a'r dull sgriwtini mewn perthynas â materion cyllidebol newid i'r dyfodol.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **5.1** | Ail-siapio'r mewnbwn Sgriwtini i faterion cyllidebol er mwyn:<br>• Archwilio'r broses o osod cyllideb y flwyddyn ariannol ddilynol (yn hytrach na gwneud hynny'n ôl-weithredol) a darparu tystiolaeth o werth ychwanegol drwy graffu cyn gwneud penderfyniad;<br>• Sicrhau aliniad gwell rhwng y broses o osod cyllideb, y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol, trawsnewid gwasanaethau a chyfraniad Sgriwtini;<br>• Canolbwyntio ar weledigaeth y gwasanaethau at y dyfodol a'r effaith ar gyllideb y flwyddyn ddilynol (o fewn cylch 3 blynedd);<br>• Cryfhau ymhellach y broses o fonitro'r gyllideb yn chwarterol er mwyn cynnwys adnabod arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol. |

# 6. PAPURAU CEFNDIR/LLYFRYDDIAETH

6.1 Taenlenni'n crynhoi arbedion effeithlonrwydd ar draws gwasanaethau'r Cyngor – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Datblygu Cynaliadwy; Dysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Corfforaethol.

6.2 Crynodebau o drafodaethau'r Panel.

6.3 Cofnodion cyfarfodydd y Panel Canlyniad Sgriwtini:

- Cyfarfod 1 – 07/09/15
- Cyfarfod 2 – 14/09/15
- Cyfarfod 3 – 28/09/15
- Cyfarfod 4 – 14/10/15
- Cyfarfod 5 – 06/11/15
- Cyfarfod 6 – 19/11/15
- Cyfarfod 7 – 04/12/15
- Cyfarfod 8 – 04/01/16

Fersiwn 6
05/01/16

# ATODIAD 1

# CYLCH GORCHWYL
# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2015/15

# CYLCH GORCHWYL
# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: ARBEDION EFFEITHIOLRWYDD (2015/16)

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon (CG) yn gosod allan y trefniadau gweithio a ffiniau gwaith y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithiolrwydd (2015/16) a ail sefydlwyd yn ddiweddar.

## 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

1.1 Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Panel Canlyniad Sgriwtini: Arbedion Effeithiolrwydd (2014/15) gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2015;

1.2 Yn ngoleuni ei drafodaethau, bu i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu derbyn yr argymhellion a ganlyn fel fe'u cyflwynwyd gan y Panel Canlyniad Sgriwtini:

- Nodi'r dadansoddiad a wnaed gan y Panel Canlyniad Sgriwtini (a fonitrodd yr arbedion effeithiolrwydd ar gyfer cyllideb 2014/15 yng nghyfnod 5 a chfynod 8) a oedd yn dangos nad yw'r arbedion yn debygol o gael eu cyflawni'n llawn oherwydd 'roedd yr arbedion o £1.782m yn brin o'r targed yng nghyfnod 5 a £1.084m yn brin o'r targed yng nghyfnod 8;
- Cymryd y ffigyrau hyn i ystyriaeth cyn pennu cyllideb 2015/16 y Cyngor;
- Y dylai adroddiadau ar osod y gyllideb yn y dyfodol gynnwys:
  - Colofn yn nodi effaith wirioneddol yr arbedion arfaethedig ar y dinasydd a'r wybodaeth honno i'w darparu gan y gwasanaethau ar gyfer y canol corfforaethol (sy'n gyfrifol am gydlynu'r broses flynyddol ar gyfer gosod y gyllideb);
  - Bod y ffigwr a gynigir fel arbediad yn cael ei gyfleu fel canran o'r gyllideb gyfan y daw ohoni.

- **Bod Panel o Aelodau Sgriwtini'n parhau i fonitro'r arbedion a gyflwynir gan yr adrannau i'r flwyddyn nesaf trwy fonitro cyllideb 2015/16 yn chwarterol**;
- Bod y Pwyllgor Gwaith yn parhau i gynorthwyo'r Gwasanaeth Cyllid i fynd ar drywydd y system(au) angenrheidiol i fedru adrodd yn gorfforaethol ar y gyllideb bob mis (fel sydd wedi bod yn digwydd mewn Awdurdodau eraill am rai blynyddoedd);
- Gallai'r adroddiad hwn fod yn declyn defnyddiol ar gyfer datblygu Penaethiaid Gwasanaeth wrth iddynt gynnig arbedion i'r dyfodol a/neu wneud bidiau ar gyfer prosiectau newydd i'r canol corfforaethol.

## 2. RÔL, PWRPAS & SGÔP

Bydd rôl y Panel Canlyniad Sgriwtini'n cynnwys edrych mewn mwy o fanylder/craffu ar:

- Gynnydd yr Awdurdod wrth gyflawni ar ei strategaeth/dargedau effeithiolrwydd ar gyfer 2015/16.

Gwneir hyn drwy osod y cwestiynau allweddol a ganlyn:

i. A ydy'r arbedion effeithiolrwydd wedi'u cyflawni?
ii. A ydy'r arbedion wedi'u cyflawni i'r amserlen?
iii. Oes yna drefniadau rheoli prosiect cadarn mewn lle?
iv. Pa drefniadau sydd mewn lle i reoli'r risgiau ynghlwm wrth y Strategaeth Arbedion?

v. Beth yw'r risgiau cyfredol yn nhermau cwrdd â'n targedau effeithiolrwydd?
vi. I ba raddau mae'r arbedion yn cael eu cyflawni yn hytrach na defnyddio ffynonellau eraill i gyfarfod â'r targedau Gwasanaethau?
vii. Ydy lefelau arbedion gwirioneddol yn unol â'r rhagamcanion?
viii. Oes yna unrhyw faterion gweithlu yn codi sydd angen eu cymryd i ystyriaeth?

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

**3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig**:

- Cynghorydd R Meirion Jones;
- Cynghorydd Llinos Medi Huws;
- Cynghorydd T Victor Hughes.

**3.2 Aelodaeth – Swyddogion**:

- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adain 151 Dros Dro (hyd at 28/09/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adain 151 (o 14/10/15);
- Bethan Hughes-Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

Mae'n bosibl y bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a/neu swyddogion o feysydd Gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

## 4. CADEIRIO

Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder Cyfarfodyd** – Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini i gwblhau darn penodol o waith ar ran y rhiant bwyllgor, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (cyfeirir at baragraff 2, uchod). I'r perwyl hwnnw, trefnwyd cyfres o 8 cyfarfod (**ATODIAD 1**) a chynhelir hwynt yn ystod y cyfnod rhwng dechrau Medi, 2015 a dechrau Ionawr, 2016;

5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthnasol i'r Paneli Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## 6. COFNODION CYFARFODYDD A THREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu papurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a bydd yn darparu cofnod o gyfarfodydd y Panel;

6.2 Bydd yr Uned Sgriwtini'n paratoi adroddiad drafft o waith y Panel – er cymeradwyaeth gan Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol.

## 7. AMSERLEN

Bydd ffiniau amser i waith y Panel Sgriwtini ac anelir at baratoi ei adroddiad drafft cyntaf erbyn Rhagfyr, 2015.

**ATODIAD 1**

**ATODLEN CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI [ARBEDION EFFEITHIOLRWYDD]**

| CYFARFOD | DYDDIAD | LLEOLIAD | RHAGLEN |
|---|---|---|---|
| **1** | **07/09/15**<br>[1.30 – 3.30yp] | Ystafell 1003 | *1.* CG, Cynllun Prosiect a gosod y cyd-destun<br>*2.* Cytuno’r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 2. |
| **2** | **14/09/15**<br>[2.00 – 4.00yp] | Ystafell Bwyllgor 1 | *1.* Arbedion Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) a’r Gwasanaeth Tai<br>2. Cytuno’r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 3. |
| **3** | **28/09/15**<br>[1.00 – 3.00yp] | Ystafell 1003 | *1.* Arbedion Adran Datblygu Cynaliadwy<br>*2.* Cytuno’r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 4. |
| **4** | **14/10/15**<br>[2.00 – 4.00yp] | Ystafell 1003 | 1. Gorffen ystyried/craffu arbedion adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy<br>2. Cytuno’r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 5. |
| **5** | **06/11/15**<br>[10.00yb – 1.00yp] | Ystafell 1003 | *1.* Arbedion Dysgu Gydol Oes<br>*2.* Cytuno’r anghenion data/gwybodaeth ar gyfer Cyfarfod 6. |
| **6** | **19/11/15**<br>[11.30yb – 1.30yp] | Ystafell 1003 | 1. Arbedion Corfforaethol/ Cefn Swyddfa<br>2. Gorffen ystyried/craffu arbedion 2015/16<br>3. Cytuno’r casgliadau cychwynnol. |
| **7** | **04/12/15**<br>[9.30yb – 12.00] | Ystafell 1003 | Ystyried yr holl ffrydiau gwaith arbedion gyda’i gilydd, dod i gasgliadau a chytuno argymhellion. |
| **8** | **04/01/16**<br>[2.00 – 3.30yp] | Ystafell Bwyllgor 1 | Cytuno Adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **1 CHWEFROR 2016** |
| **PWNC:** | **GWASANAETH IECHYD MEDDWL CYMUNEDOL** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **ALWYN JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BARBARA WILLIAMS**<br>**01248 752738**<br>**barbarawilliams@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLIAD

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y datganiad sefyllfa hwn mewn perthynas â gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol.

1.2 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariad blynyddol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn

1.3 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r datblygiadau sydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## 2.0 RHESYMAU

2.1 Mae hanes hir yn Ynys Môn o gyflwyno gwasanaethau Iechyd Meddwl mewn partneriaeth â'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHT) yn dîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd meddwl gan gynnwys nyrsys Seiciatrig, seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, swyddogion cwnsela a gweithwyr cymorth sy'n cael eu cyd-leoli yn Ysbyty Cefni, Llangefni ac sy'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr yn y gymuned i oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae Memorandwm Dealltwriaeth (drafft) rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer y gwasanaeth.

2.2 Gyda chyflwyno Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, sefydlwyd fframwaith cenedlaethol ar ei newydd wedd ar gyfer darparu a chyflwyno cymorth ar gyfer iechyd meddwl yng Nghymru (cyf: Atodiad 1).Yn ogystal, mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Cymru, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yn darparu cyfeiriad strategol ehangach ar gyfer datblygu a gweithredu gwasanaethau iechyd meddwl ar draws y sbectrwm o wasanaethau oedolion.

2.3 Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn amlinellu'n glir y gwahaniaeth rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae targedau perfformiad ar gyfer asesu ac ymyriadau wedi cael eu sefydlu a chânt eu monitro gan Lywodraeth Cymru.

2.4 Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o anghenion iechyd meddwl yn cael sylw ar lefel gofal sylfaenol lle mae rôl y Meddyg Teulu'n ganolog. Mae sylfaen tystiolaeth glir i gefnogi'r ddarpariaeth o ymyriadau byr wedi eu targedu'n benodol sydd yn gymorth i adferiad ac yn lleihau'r angen am gefnogaeth tymor hir.

2.5 Ar gyfer yr unigolion hynny y mae eu hanghenion yn gymhleth neu'n barhaus, rhoddir cefnogaeth ar sail model gofal eilaidd ac yn Rhan 2 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, nodir bod rhaid, dan y fath amgylchiadau, i unigolion gael Cydlynydd Gofal a rhaid datblygu cynllun Gofal a Thriniaeth a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

2.6 Mae'r CMHT wedi datblygu trefniant Un Pwynt Mynediad (SPOA) ac Asesu er mwyn darparu ymateb cydlynol ar gyfer atgyfeiriadau i'r gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd SPOA bob diwrnod o'r wythnos ac mae'r arfer hwn sicrhau fod yr holl gyfeiriadau yn cael eu trafod yn gan yr holl ddisgyblaethau gyda mewnbwn gan reolwyr. Yn ogystal, mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn darparu gwasanaeth dyletswydd yn ystod yr wythnos er mwyn ymateb i gyfeiriadau sydd angen sylw brys ynghyd ag asesiadau y mae angen eu hystyried a'u hasesu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

2.7 Mae gweithwyr proffesiynol yn y CMHT yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau statudol eraill, er enghraifft, y gwasanaeth ar gyfer cleifion sy'n cael triniaeth yn yr ysbyty, y Tîm Triniaeth yn y Cartref, y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, gwasanaethau Fforensig, gwasanaethau ar gyfer pobl Hŷn, yr Heddlu, y Gwasanaethau Tân ac Achub a Thai er mwyn er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn gydlynol, yn briodol ac yn amserol. Yn ogystal, mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau trydydd sector a gwasanaethau cenedlaethol a lleol ar gael i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

2.8 Mewn gofal sylfaenol ac eilaidd, y nod yw darparu ystod o ymyriadau i unigolion, teuluoedd a grwpiau wedi eu dylunio i gynorthwyo adferiad iechyd, adfer sgiliau a galluoedd gweithredol a galluogi cynhwysiant cymdeithasol.

2.9 Mae gan CMHT gyflenwad o weithwyr cymorth cymunedol (CSS) sy'n rhoi cymorth o ran gofal sylfaenol ac eilaidd i unigolion yn y gymuned. Yn ogystal, mae'r CSS yn rhoi cefnogaeth ii 6 o unigolion mewn prosiect tai â chymorth ac mae'n darparu cymorth cysylltiedig â thai i ystod o bobl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y model o ddarpariaeth gwasanaeth yn cefnogi adferiad a datblygiad ac yn cynorthwyo unigolion i weithredu gorau y gallant.

2.10 Wrth symud ymlaen, nod y gwasanaeth yw ceisio cryfhau'r trefniadau cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd drwy wreiddio'n gadarn y Memorandwm o Ddealltwriaeth. Bydd hyn yn cryfhau trefniadau llywodraethu ac yn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei fonitro'n gadarn. Yr un modd, mae angen datblygu ymhellach rôl y defnyddiwr gwasanaeth a chyfraniad y gofalwyr o ran monitro ac adrodd ar y gwasanaeth.

Awdur: Barbara Williams
Teitl Swydd: Rheolydd Gwasanaeth - Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
Dyddiad: 15/01/2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn ddeddf newydd a wnaed gan Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl mewn pedair ffordd wahanol.

## Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol

Bydd y Mesur yn gwneud yn si r fod mwy o wasanaethau ar gael i'ch meddyg teulu eich anfon atynt os oes gennych broblemau iechyd meddwl fel gorbryder neu iselder. Gall y gwasanaethau hyn, a all gynnwys er enghraifft cwnsela, rheoli straen a gorbryder, fod ar gael naill ai yn eich meddygfa neu gerllaw fel ei bod yn haws cael atynt.

Byddant hefyd yn dweud wrthych am wasanaethau eraill a allai eich helpu, fel y rhai a ddarperir gan grwpiau gwirfoddol lleol neu gyngor ar arian neu dai.

## Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth

Mae gan rai pobl broblemau iechyd meddwl sy'n gofyn am ofal a chymorth mwy arbenigol (a ddarperir weithiau mewn ysbyty). Os ydych yn cael y gwasanaethau hyn yna bydd eich gofal a'ch triniaeth yn cael eu harolygu gan weithiwr proffesiynol fel seiciatrydd, nyrs neu weithiwr cymdeithasol. Gelwir y bobl hyn yn Gydgysylltwyr Gofal a byddant yn ysgrifennu cynllun gofal a thriniaeth ar eich cyfer – gan gydweithio â chi gymaint â phosibl. Bydd y cynllun hwn yn nodi'r amcanion rydych yn gweithio tuag atynt a'r gwasanaethau a ddarperir gan y GIG a'r awdurdod lleol i'ch helpu i'w cyrraedd. Rhaid i'r cynllun hwn gael ei adolygu gyda chi o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Asesiad o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl o'r blaen

Os ydych wedi cael triniaeth arbenigol yn y gorffennol ac wedi'ch rhyddhau gan fod eich cyflwr yn gwella, ond nawr rydych yn teimlo bod eich iechyd meddwl yn gwaethygu, yna gallwch fynd nôl yn syth at y gwasanaeth iechyd meddwl a oedd yn gofalu amdanoch o'r blaen a gofyn iddyn nhw edrych i weld a oes angen cymorth neu driniaeth bellach arnoch. Nid oes angen ichi fynd at eich meddyg teulu yn gyntaf, er y gallech ddymuno siarad drwy bethau gydag ef. Gallwch ofyn am hyn hyd at dair blynedd ar ôl ichi gael eich rhyddhau o'r tîm arbenigol.

## Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol

Os ydych yn yr ysbyty ac yn dioddef o broblemau iechyd meddwl gallwch ofyn am help gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol. Mae'r Eiriolwr yn arbenigwr mewn iechyd meddwl a fydd yn eich helpu chi i wneud eich safbwyntiau'n hysbys ac i wneud penderfyniadau ynghylch eich gofal a'ch triniaeth (ond ni fydd yn gwneud penderfyniadau ar eich rhan!)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Mesur Iechyd Meddwl a'r hyn y mae'n ei olygu i chi, yna cysylltwch â ni yn:
mentalhealthandvulnerablegroups@cymru.gsi.gov.uk

WG14213 © Hawlfraint y Goron 2012

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i'r:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **8ed o Chwefror 2016** |
| **Pwnc:** | **Sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer y dyfodol: Trawsffurfio Llyfrgelloedd**<br><br>**Canlyniadau Ymgynghoriad Gwasanaethau Llyfrgell** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif ffôn:<br>E-bost: | **Rachel Rowlands**<br>**01248 752094**<br>**rfxlh@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol I'r holl aelodau etholedig** |

**A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau**

**Argymhellion**

a. Ystyried y canlyniadau ymgynghori ar gyfer Arolwg y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth: Y ffordd ymlaen - Hydref/Tachwedd 2015 – a nodi ymateb dinasyddion Ynys Môn i'r cynigion a'r syniadau a roddwyd ymlaen yn ystod yr ymgynghoriad.

b. Yng nghyd-destun yr angen i'r gwasanaeth llyfrgelleodd geisio cynnig arbedion rhwng 20-60%, parhau i archwilio a chostio modelau pellach posibl yng nghyd-destun y canfyddiadau ymgynghori, fel yr amlinellwyd yn yr arolwg gwasanaeth llyfrgell. Mae angen talu sylw arbennig i effeithiau unrhyw newidiadau ar grwpiau a chymunedau bregus.

